Cynnig Gofal Plant Cymru
Childcare Offer for Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau

# Cynnig Gofal Plant Cymru

## Canllawiau i Awdurdodau Lleol

Ebrill 2026

Fersiwn 8.3

Mae'r canllawiau hyn wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol.

Ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol cyfeiriwch at y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer Awdurdodau Lleol, y gellir dod o hyd iddynt yma: Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer Awdurdodau Lleol

Ceir gwybodaeth ategol i ddarparwyr gofal plant sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol yma: Cymorth i ddarparwyr gyda Chynnig Gofal Plant Cymru | LLYW.CYMRU

Ceir gwybodaeth ategol i rieni sy'n gwneud cais ar y Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol yma: Cymorth i rieni gyda Chynnig Gofal Plant Cymru | LLYW.CYMRU

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG54451, ISBN digidol 978-1-83745-455-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

## CRYNODEB O'R NEWIDIADAU

| DYDDIAD | CRYNODEB |
|---|---|
| EBRILL 2025 | • Adnewyddu strwythur y canllawiau a chynnwys dolenni perthnasol i Weithdrefnau Gweithredu Safonol ac ar ddechrau pob adran.<br>• Newidiadau wedi'u gwneud i adlewyrchu dull gwasanaeth digidol, cenedlaethol o ddarparu.<br>• Egluro canllawiau er mwyn sicrhau bod y termau a ddefnyddir yn gywir ar gyfer Addysg Feithrin. Yr hen enw oedd Addysg Gynnar.<br>• Egluro bod angen i rieni wneud cais am ddarpariaeth addysg feithrin ar wahân i wneud cais ar-lein ar gyfer elfen gofal plant y Cynnig.<br>• Egluro pryd y gall rhieni gwblhau eu cais ar-lein i gael mynediad i'r Cynnig.<br>• Egluro bod statws cymhwystra ar gyfer rhiant yn dechrau pan fydd awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad ac yn hysbysu rhiant.<br>• Adolygu'r canllawiau ar Gyfnodau Eithrio Dros Dro ac egluro elfennau yn seiliedig ar adborth rhanddeiliaid. Mae'r canllawiau atodol wedi'u dileu ac maent bellach wedi'u cynnwys yng nghorff y canllawiau hyn.<br>• Cydweithio â phartneriaid CWLWM i egluro ymhellach yr agwedd codi tâl am elfennau ychwanegol<br>• Diweddaru'r gyfradd fesul awr a delir i leoliadau gofal plant i ddechrau 7 Ebrill 2025.<br>• Diweddaru'r taliadau a ganiateir i fwyd i ddod i rym ar 7 Ebrill 2025.<br>• Cadarnhau trefniadau'r model cyflawni gydag awdurdodau lleol ledled Cymru.<br>• Diweddaru'r canllawiau i ddileu rolau a chyfrifoldebau etifeddol awdurdodau lleol nad oes eu hangen mwyach neu nad ydynt yn cael eu cyflawni mwyach.<br>• Egluro adran Apeliadau a Chwynion y canllawiau.<br>• Egluro'r broses o ôl-daliadau a thaliadau eithriadol<br>• Cadarnhau cymhwystra rhieni sy'n gweithio yn ystod y tymor.<br>• Dileu'r adran sy'n ymwneud â thywydd garw/tân. |
| HYDREF 2025 | • Egluro'r amserlenni o ran cymhwystra ar gyfer addysg feithrin |

| DYDDIAD | CRYNODEB |
|---|---|
| | • Adnewyddu adran gwynion y canllawiau.<br>• Egluro, pan fydd wythnos gwyliau ysgol yn dechrau ar ganol wythnos, bod yr wythnos gyfan yn cael ei hystyried yn wythnos wyliau.<br>• Egluro, os yw rhiant yn peidio â bod yn gymwys mwyach cyn i'r plentyn ddechrau derbyn gofal plant o dan y Cynnig, nad oes ganddynt hawl i gael eu rhoi mewn cyfnod esemptio dros dro.<br>• Egluro bod rhieni yn cadarnhau eu bod yn parhau'n gymwys drwy wiriad 100% a gwiriad 20%. |
| IONAWR 2026 | • Ailosod yr adran ar Dywydd Garw |
| EBRILL 2026 | • Egluro'r polisi ynghylch contractau blynyddol ac achosion lle mae lleoliadau yn hawlio oriau pan nad oes bwriad gan blant fynychu, yn enwedig yn ystod cyfnodau gwyliau.<br>• Nodweddion gwarchodedig wrth asesu cymhwysedd.<br>• Egluro'r sefyllfa ynghylch achosion lle nad yw plentyn yn mynychu, a pha mor hir y ceir parhau i hawlio pan na fydd plentyn yn mynychu.<br>• Diweddaru'r gyfradd fesul awr a chostau prydau bwyd y caiff lleoliadau godi tâl amdanynt. |

ADRAN 1 – GAIR AM Y CANLLAWIAU HYN ........ 6
ADRAN 2 – CYNNWYS CYNNIG GOFAL PLANT CYMRU ........ 7
YSTYR 'GOFAL PLANT' ........ 7
YSTYR 'ADDYSG GYNNAR' AC 'ADDYSG FEITHRIN' ........ 7
YSTYR '30 AWR' ........ 8
RHIENI NAD YDYNT YN MANTEISIO AR DDARPARIAETH ADDYSG FEITHRIN ........ 8
DARPARU ADDYSG FEITHRIN MEWN AWDURDOD LLEOL GWAHANOL I LE MAE'R PLENTYN YN BYW ........ 9
PRYD Y GALL RHIENI WNEUD CAIS AM Y CYNNIG GOFAL PLANT ........ 9
ADRAN 3 – PRYD Y GALL RHIENI FANTEISIO AR YR ORIAU GOFAL PLANT A ARIENNIR DRWY'R ........ 11
CYNNIG ........ 11
ORIAU GOFAL PLANT O FEWN WYTHNOS ........ 11
DARPARIAETH ADEG GWYLIAU ........ 11
DARPARIAETH ADEG GWYLIAU ........ 13
NODI PA WYTHNOSAU SY'N WYTHNOSAU GWYLIAU ........ 13
WYTHNOSAU NAD YDYNT YN CAEL EU HARIANNU O DAN Y CYNNIG ........ 14
ADRAN 4 – PWY SY'N GYMWYS I GAEL Y CYNNIG GOFAL PLANT ........ 15
DIFFINIAD O BLENTYN CYMWYS ........ 15
DECHRAU ADDYSG AMSER LLAWN ........ 16
DIFFINIAD O RIANT CYMWYS ........ 16
DIFFINIAD O RIANT SY'N GWEITHIO ........ 17
DIFFINIAD O RIANT MEWN ADDYSG NEU HYFFORDDIANT ........ 18
GOFALWYR SY'N BERTHNASAU A GWARCHEIDWAID ARBENNIG ........ 19
GOFALWYR MAETH A RHIENI SY'N MABWYSIADU ........ 19
RHIENI NAD YW CYLLID CYHOEDDUS AR GAEL IDDYNT ........ 20
RHIENI YN Y LLUOEDD ARFOG ........ 20
AELWYDYDD DIGARTREF ........ 20
AELWYDYDD MEWN CYMUNEDAU SY'N TEITHIO ........ 20
EITHRIADAU AR GYFER AELWYDYDD DAU RIANT SY'N BODLONI'R MEINI PRAWF O RAN ENILLION NEU SYDD MEWN ADDYSG A HYFFORDDIANT. ........ 21
EITHRIADAU LLE NAD OES RHAID I AELWYDYDD UN RHIANT FODLONI'R MEINI PRAWF ENILLION NEU ORFOD BOD MEWN ADDYSG A HYFFORDDIANT. ........ 22
RHIENI SYDD WEDI GWAHANU ........ 23
GOFAL PLANT DI-DRETH A CHREDYD CYNHWYSOL ........ 23
ADRAN 5 – BETH SY'N DIGWYDD PAN FYDD RHIANT YN PEIDIO Â BOD YN GYMWYS MWYACH ........ 24
DIFFINIAD O GYFNOD ESEMPTIO DROS DRO ........ 24
PWRPAS CYFNOD ESEMPTIO DROS DRO ........ 24
HYD Y CYFNOD ESEMPTIO DROS DRO ........ 24
BETH SY'N DIGWYDD PAN FYDD RHIANT YN CAEL EI ROI MEWN CYFNOD ESEMPTIO DROS DRO ........ 24
FAINT O GYFNODAU ESEMPTIO DROS DRO Y GELLIR EU CYMHWYSO ........ 25
RHOI DIWEDD AR GYFNOD ESEMPTIO DROS DRO YN GYNNAR ........ 25
RHIENI YN ARCHEBU ORIAU'R CYNNIG GOFAL PLANT PAN MEWN CYFNOD ESEMPTIO DROS DRO ........ 25

Pan fo Cyfnod Esemptio Dros Dro yn gymwys ........ 25
Beth ddylai awdurdod lleol ei wneud pan ddaw Cyfnod Esemptio Dros Dro i ben ........ 28
Beth sy'n digwydd ar ôl i Gyfnod Esemptio Dros Dro ddod i ben ........ 28
**ADRAN 6 – PLANT Y MAE ANGEN CYMORTH YCHWANEGOL ARNYNT ........ 29**
Grant Cymorth Ychwanegol ........ 29
**ADRAN 7 – PA DDARPARWYR A ALL GYNNIG DARPARIAETH O DAN Y CYNNIG ........ 30**
Mathau o ddarparwyr ........ 30
Darpariaeth drawsffiniol ........ 31
**ADRAN 8 – Y GYFRADD A DELIR I DDARPARWYR SY'N DARPARU'R CYNNIG ........ 32**
Cyfradd tâl fesul awr ar gyfer gofal plant ........ 32
Codi ffioedd ychwanegol ........ 32
Codi tâl am elfennau ychwanegol ........ 33
Elfen codi tâl - bwyd: ........ 33
Elfen codi tâl - cludiant: ........ 34
Elfen codi tâl – Gweithgareddau oddi ar y safle: ........ 34
Achosion o beidio â chydymffurfio â chanllawiau codi tâl ........ 35
Torri Canllawiau – Codi ffioedd atodol ac elfennau ychwanegol y gellir codi tâl amdanynt ........ 35
Cyllid ar gyfer darpariaeth addysg feithrin ........ 35
Hawlio am oriau a drefnwyd ond na ddefnyddiwyd ........ 36
**ADRAN 9 – ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU AWDURDODAU LLEOL ........ 37**
Y Model Gweithredu ........ 37
Cyfathrebu a Brandio ........ 38
**ADRAN 10 – CYLLID AR GYFER Y CYNNIG GOFAL PLANT ........ 40**
Grant Gweinyddu'r Cynnig Gofal Plant ........ 40
Y Grant Cymorth Ychwanegol ........ 40
**ADRAN 11 – DARPARU'R CYNNIG – AWDURDODAU LLEOL YN CEFNOGI RHIENI ........ 41**
Prosesau rhieni ........ 41
Gwirio Cymhwystra ........ 41
Prawf o gyfeiriad ........ 42
Prawf o gyflogaeth ac incwm ........ 42
Pan fo rhiant ar absenoldeb mabwysiadu neu os yw'n ofalwr maeth ........ 42
Hunangyflogedig (gan gynnwys gofal maeth) ........ 43
Pan fo rhiant newydd adleoli ........ 43
Pan fo rhiant newydd fynd yn hunangyflogedig ........ 43
Pan fo rhiant mewn addysg neu hyfforddiant ........ 43
Croeswirio gwybodaeth a thystiolaeth ddogfennol ........ 44
Hysbysiadau i Rieni ........ 44
Rhieni yn Cadarnhau Cymhwystra Parhaus ........ 44
Adolygiadau Rhieni a Chwynion ........ 44

**ADRAN 12 – DARPARU'R CYNNIG – ÔL-DALIADAU A DIGWYDDIADAU EITHRIADOL ........ 47**
ÔL-DALIADAU A THALIADAU DIGWYDDIAD EITHRIADOL ........ 47
ÔL-DALIADAU ........ 47
DIGWYDDIADAU EITHRIADOL ........ 48
TYWYDD GARW ........ 48
PANDEMIG NEU ARGYFWNG IECHYD TEBYG ........ 49
ADENNILL DYLEDION ........ 53
CAU GWASANAETHAU O WIRFODD ........ 53
**ATODIAD 1 - SENARIOS CARIO DARPARIAETH GWYLIAU DROSODD ........ 54**

## Adran 1 – Gair am y canllawiau hyn

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau polisi i awdurdodau lleol sy'n gweinyddu Cynnig Gofal Plant Cymru.

Drwy'r Cynnig Gofal Plant Cymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 30 o oriau o addysg feithrin a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth ar gyfer plant 3 a 4 oed i rieni cymwys a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Prif nodau polisi elfennau addysg a gofal plant y Cynnig yw:

- galluogi mwy o rieni, yn enwedig mamau, i ddychwelyd i'r gwaith, cynyddu eu horiau neu weithio'n fwy hyblyg;
- cefnogi rhieni sy'n ceisio gwella eu rhagolygon cyflogaeth drwy ennill cymwysterau, ailhyfforddi neu newid llwybr gyrfa;
- cynyddu incwm gwario pobl sy'n gweithio, a helpu i ddileu tlodi ar gyfer pobl mewn swyddi sy'n talu cyflogau isel; a
- helpu plant i ddatblygu a dysgu (cyfeiriwyd at hyn yn flaenorol fel bod yn barod ar gyfer yr ysgol).

Mae'r canllawiau anstatudol hyn yn helpu awdurdodau lleol i weithredu Cynnig Gofal Plant Cymru. Caiff y canllawiau hyn eu hadolygu fel y bo angen i adlewyrchu unrhyw newidiadau i bolisïau neu drefniadau gweithredu.

**I weld y canllawiau ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol, cyfeiriwch at y gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer awdurdodau lleol, y gellir dod o hyd iddynt yma:** Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer Awdurdodau Lleol

Ceir gwybodaeth ategol i ddarparwyr gofal plant sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol yma: Cymorth i ddarparwyr gyda Chynnig Gofal Plant Cymru | LLYW.CYMRU

Ceir gwybodaeth ategol i rieni sy'n gwneud cais ar y Gwasanaeth Digidol Cenedlaethol yma: Cymorth i rieni gyda Chynnig Gofal Plant Cymru | LLYW.CYMRU

## Adran 2 – Cynnwys Cynnig Gofal Plant Cymru

1) Mae Cynnig Gofal Plant Cymru ("y Cynnig") yn cynnwys dwy elfen: addysg feithrin (y cyfeirir ati hefyd fel addysg gynnar) a gofal plant. Mae'r ddwy elfen hyn yn cyfrif am 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Yn ogystal â 39 wythnos yn ystod y tymor a ddarperir gan y Cynnig, cynigir 9 wythnos ychwanegol i rieni y tu allan i'r tymor ysgol.

### Ystyr 'gofal plant'

2) At ddibenion y Cynnig, mae gofal plant yn cyfeirio at ofal plant sy'n cael ei reoleiddio a'i arolygu gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac felly yn ddarostyngedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant cofrestredig. Os yw'r gofal plant wedi'i leoli yn Lloegr, yna rhaid i'r lleoliad fod wedi'i gofrestru gyda'r Swyddfa Safonau Mewn Addysg (Ofsted).

### Ystyr 'addysg gynnar' ac 'addysg feithrin'

**Addysg gynnar** yw'r ddarpariaeth addysg ar gyfer plant 3 i 8 oed ac mae'n cwmpasu addysg feithrin a dysgu sylfaen. Cyfeiriwyd ati'n flaenorol fel darpariaeth feithrin y cyfnod sylfaen.

Mae **addysg feithrin** ar gyfer plant 3 a 4 oed, cyn iddynt ddechrau addysg statudol, ac fe'i darperir mewn ysgol neu leoliad gofal plant a ariennir gan yr awdurdod lleol. Mae addysg feithrin yn rhan o addysg gynnar.

Dylid nodi bod platfform digidol y Cynnig Gofal Plant yn cyfeirio at addysg feithrin fel addysg gynnar gan fod y platfform wedi'i ddatblygu cyn i'r term gael ei newid. Bydd yn cael ei ddiweddaru maes o law.

3) Mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod lle addysg feithrin a ariennir ar gael (o leiaf 10 awr yr wythnos) i blant 3 a 4 oed, yn dibynnu ar ddyddiad eu pen-blwydd. Mae'r tabl isod yn dangos pryd y bydd y lle hwnnw ar gael.

| Pen-blwydd y plentyn | Pryd all plentyn gael lle addysg feithrin a ariennir |
|---|---|
| 1 Medi i 31 Rhagfyr | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ionawr |
| 1 Ionawr i 31 Mawrth | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ebrill |
| 1 Ebrill i 31 Awst | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Medi |

4) Gellir darparu addysg feithrin mewn ysgol gynradd a gynhelir, ysgol feithrin a gynhelir neu leoliad meithrin a ariennir nas cynhelir, fel lleoliad gofal plant, cylch chwarae a ariennir neu warchodwr plant.

5) Mae sut mae addysg feithrin yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno yn fater i'r awdurdod lleol yn seiliedig ar eu hasesiad lleol o'r angen.

## Ystyr ‘30 awr’

6) Yn ystod y tymor ysgol (39 wythnos y flwyddyn) mae’r Cynnig yn darparu hyd at 30 awr o ddarpariaeth wedi’i hariannu sy’n cynnwys oriau addysg feithrin ac oriau gofal plant. Bydd angen i rieni wneud cais am oriau addysg feithrin ar wahân drwy eu hawdurdod lleol.

7) Y tu allan i’r tymor ysgol, am 9 ‘wythnos wyliau’, mae’r Cynnig yn darparu hyd at 30 awr o ofal plant yn unig.

8) Yn ystod y tymor ysgol, bydd y Cynnig yn cynnwys o leiaf 10 awr o addysg feithrin yr wythnos. Uwchlaw hyn, bydd yr union raniad rhwng oriau addysg feithrin ac oriau gofal plant yn dibynnu ar nifer yr oriau o addysg feithrin a gynigir gan yr awdurdod lleol (neu’r ysgol unigol).

9) Er ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu o leiaf 10 awr o addysg feithrin, mae llawer yn darparu mwy na'r isafswm statudol.

Er enghraifft:

- Os yw awdurdod lleol yn cynnig 10 awr o addysg feithrin yr wythnos, ni all yr oriau gofal plant a hawlir fel rhan o'r Cynnig Gofal Plant fod yn fwy nag 20 awr yr wythnos.
- Os yw awdurdod lleol yn cynnig 12.5 awr o addysg feithrin yr wythnos, ni all yr oriau gofal plant a hawlir fel rhan o'r Cynnig Gofal Plant fod yn fwy na 17.5 awr yr wythnos yn ystod y tymor.
- Os yw awdurdod lleol yn cynnig 30 awr o addysg feithrin yr wythnos, ni ellir hawlio unrhyw oriau gofal plant fel rhan o'r Cynnig Gofal Plant.

10) Yn ystod y tymor ysgol, ni all unrhyw blentyn dderbyn mwy na chyfanswm cyfunol o 30 awr o ofal plant a darpariaeth addysg feithrin a ariennir. Er enghraifft, os yw awdurdod lleol (neu ysgol) yn cynnig 15 awr o ddarpariaeth addysg feithrin yr wythnos, yna gellir darparu uchafswm o 15 awr o ofal plant a ariennir ar ben hyn.

11) Os bydd lleoliad a ariennir nas cynhelir yn dewis cynnig oriau o ddarpariaeth addysg feithrin sy’n ychwanegol at nifer yr oriau a gynigir ac a ariennir gan yr awdurdod lleol, bydd angen i’r awdurdod lleol sicrhau nad yw cyfanswm yr oriau yn cynnwys gofal plant a ariennir yn fwy na 30 awr ar gyfer unrhyw blentyn unigol.

## Rhieni nad ydynt yn manteisio ar ddarpariaeth addysg feithrin

12) Nid oes rhaid i rieni cymwys fanteisio ar eu lle addysg feithrin i ddefnyddio elfen gofal plant y Cynnig.

13) Pan fydd rhiant yn dewis peidio â manteisio ar ddarpariaeth addysg feithrin i'w plentyn yn ystod y tymor ysgol, bydd uchafswm yr oriau gofal plant a ariennir y gallant eu cael yr un fath â phe bai eu plentyn yn cael addysg feithrin. Ni chaniateir cyfnewid oriau darpariaeth addysg feithrin am oriau gofal plant. Er enghraifft, mewn awdurdod lleol sy'n cynnig 20 awr o ddarpariaeth addysg feithrin, byddai'r rhieni'n gallu manteisio ar uchafswm o 10 awr o ofal plant a ariennir.

14) Y tu allan i'r tymor ysgol, am 9 'wythnos wyliau', gall y rhiant gael hyd at 30 awr o ofal plant a ariennir yr wythnos. Sylwer, mae'n uchafswm o 9 'wythnos wyliau' ac nid y 13 'wythnos wyliau' llawn. Disgwylir i rieni hunan-ariannu 4 'wythnos wyliau' y flwyddyn.

15) Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, bydd plentyn yn cael cynnig lle mewn addysg amser llawn (ysgol) o'r mis Medi ar ôl iddynt droi'n 4 oed. Ar ddechrau'r tymor ysgol, pan fydd plentyn yn gymwys i gael addysg amser llawn, ni fydd y plentyn yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig mwyach.

16) Mewn awdurdodau lleol lle bydd plant yn gymwys i gael lle mewn addysg amser llawn (ysgol) yn gynharach na'r mis Medi ar ôl iddynt droi'n 4 oed, bydd y plant hyn yn dal i allu manteisio ar ddarpariaeth adeg gwyliau y Cynnig tan y mis Medi ar ôl iddynt droi'n 4 oed.

17) Ni fydd rhieni'n gallu gwrthod lle mewn addysg feithrin amser llawn ar yr adeg y caiff ei gynnig yn yr awdurdod lleol y maent yn byw ynddo er mwyn parhau i fanteisio ar y Cynnig yn ystod y tymor (gweler Adran 4 – Pwy sy'n gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant am ragor o fanylion).

18) Os bydd ysgol yn cychwyn tymor plant ar adegau gwahanol, ni fydd rhieni'n gymwys i fanteisio ar y Cynnig yn ystod y diwrnod(au)/wythnos(au) pan nad yw eu plentyn yn yr ysgol.

## Darparu addysg feithrin mewn awdurdod lleol gwahanol i le mae'r plentyn yn byw

19) Pan fo plentyn yn arfer ei hawl i addysg feithrin mewn ardal awdurdod lleol wahanol i'r un y mae'n byw ynddi, mae nifer yr oriau o ofal plant y byddai ganddo hawl iddynt yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar nifer yr oriau addysg feithrin sydd ar gael iddo yn yr awdurdod lleol lle mae'n cael y ddarpariaeth honno. Er enghraifft, os yw'r awdurdod lleol lle mae'r plentyn yn mynychu addysg feithrin yn darparu 10 awr o addysg feithrin, mae gan y plentyn hawl i 20 awr o ofal plant hyd at y pwynt y mae ei awdurdod lleol cartref yn sicrhau bod lle ar gael mewn addysg amser llawn. Unwaith y bydd eu hawdurdod lleol yn sicrhau bod lle mewn addysg amser llawn ar gael, bydd cyllid yn ystod y tymor ar gyfer y Cynnig yn dod i ben.

## Pryd y gall rhieni wneud cais am y Cynnig Gofal Plant

20) Er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru, bydd gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig yn caniatáu i rieni ddechrau cais am ofal plant 75

diwrnod cyn dechrau pob tymor.

21) Awdurdodau lleol sy’n gyfrifol am hyrwyddo’r Cynnig i rieni a lleoliadau gofal plant yn eu hardaloedd.

## Adran 3 – Pryd y gall rhieni fanteisio ar yr oriau gofal plant a ariennir drwy'r Cynnig

### Oriau gofal plant o fewn wythnos

22) Dylai elfen addysg feithrin y Cynnig gael ei darparu yn unol â dull gweithredu'r awdurdod lleol.

23) Gellir manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig yn ystod unrhyw amser, ddydd neu nos, gan gynnwys ar benwythnosau. Ar hyn o bryd nid oes terfyn ar nifer cyffredinol yr oriau gofal plant y gellir eu hariannu drwy'r Cynnig fesul diwrnod, ond gall lleoliadau unigol ddewis nodi pa oriau y gellir eu hariannu drwy'r Cynnig yn ystod y dydd. **Ni all** elfen gofal plant y Cynnig fod yn fwy nag 20 awr yn ystod 'wythnos tymor' neu 30 awr yn ystod 'wythnos wyliau'.

24) Bydd elfen gofal plant y Cynnig ar gael yn ystod gwyliau banc. Os yw lleoliad yn codi tâl am wyliau banc a'i fod ar gau ac y byddai rhiant fel arfer yn defnyddio'r lleoliad ar y diwrnod hwnnw, dylid trin yr oriau fel pe bai'r plentyn yn mynd i'r lleoliad a thalu amdanynt drwy'r Cynnig. Os nad yw lleoliad yn codi tâl am ddiwrnodau pan fydd y lleoliad ar gau, ni ddylai'r diwrnodau hyn gael eu hariannu gan y Cynnig.

25) Pe byddai plentyn fel arfer wedi mynychu ar ddiwrnod pan fydd y lleoliad ar gau a bod y rhieni yn talu am oriau gofal plant ychwanegol uwchlaw eu dyraniad o dan y Cynnig, yna gall y rhiant barhau i hawlio uchafswm eu hawl o dan y Cynnig ar gyfer gweddill yr wythnos honno, hy caiff oriau'r Cynnig eu defnyddio yn gyntaf cyn i'r rhiant orfod talu). Mae hyn yn golygu na ddylai rhiant golli'r oriau o'i hawl wythnosol o dan y Cynnig oherwydd bod lleoliad ar gau.

26) Cyfrifoldeb y rhiant yw dod o hyd i leoliad gofal plant sy'n gweithredu ar yr adeg y mae angen gofal plant arno.

27) Yn ystod y tymor, nid yw rhieni'n gallu 'bancio' oriau'r Cynnig, hy cario unrhyw oriau heb eu defnyddio drosodd o un wythnos i'r llall. O ganlyniad ni fydd nifer yr oriau a ariennir o dan y Cynnig yn fwy na 30 mewn unrhyw wythnos. Caiff unrhyw oriau o dan y Cynnig nas defnyddir mewn wythnos eu colli felly. Fodd bynnag, gall rhieni ddewis talu am oriau ychwanegol, uwchlaw y 30 awr, ar eu traul eu hunain.

### Darpariaeth adeg gwyliau

28) Mae'r Cynnig yn darparu hyd at 30 awr o addysg feithrin a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth i blant 3 a 4 oed i rieni sy'n gymwys, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

29) Yn ystod y tymor ysgol (39 wythnos y flwyddyn) mae'r Cynnig yn darparu hyd at 30 awr o ddarpariaeth wedi'i hariannu sy'n cynnwys oriau addysg feithrin ac oriau gofal plant. Dim ond yn ystod y tymor y mae'r addysg feithrin a ddarperir trwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei darparu. Gall union nifer yr wythnosau 'yn

ystod y tymor' bob blwyddyn amrywio rhwng yr awdurdodau lleol, ond at ddiben y polisi hwn, bydd y tymor ysgol yn cael ei drin fel 39 wythnos.

30) Y tu allan i'r tymor ysgol, mae'r 9 wythnos arall o'r Cynnig 48 wythnos yn cael eu hystyried yn 'wythnosau gwyliau'. Yn ystod wythnosau gwyliau, gall rhieni fanteisio ar 30 awr o ofal plant a ariennir bob wythnos. Bydd hyn yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau gofal plant nas cynhelir sydd wedi'u cofrestru yn unig, fel meithrinfeydd dydd preifat, gwarchodwyr plant, gofal plant y tu allan i oriau ysgol a gofal sesiynol.

31) Bydd rhieni yn cael hawl gwyliau ar gyfer y flwyddyn academaidd bresennol pan fyddant yn ymuno â'r Cynnig a bydd yr hawl hon yn diweddaru ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ganlynol, os yw'r rhiant yn parhau i fod yn gymwys.

32) Ar ddechrau pob tymor y bydd rhiant/plentyn yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig, bydd yn cael 3 wythnos o ddarpariaeth gwyliau, hyd at gyfanswm o 9 wythnos y flwyddyn. Mae modd cario darpariaeth adeg gwyliau drosodd o un tymor i'r nesaf ac o un flwyddyn academaidd i'r nesaf, cyhyd â bod y plentyn yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Disgwylir i rieni hunan-ariannu unrhyw wythnosau gwyliau sy'n weddill nad ydynt yn dod o dan y Cynnig.

33) Ar gyfer rhieni cymwys, mae darpariaeth gwyliau'r Cynnig yn parhau i fod yn gymwys hyd yn oed os cynigir lle mewn addysg amser llawn i blentyn cyn y tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn dair oed. Ni all rhieni ddefnyddio wythnosau gwyliau ymlaen llaw, ond gellir cario drosodd unrhyw wythnosau gwyliau heb eu defnyddio a'u defnyddio tra bo'r rhiant yn parhau i fod yn gymwys.

34) Gellir cael gafael ar oriau gofal plant a ariennir ar unrhyw adeg yn ystod wythnosau sy'n wyliau, nos neu ddydd, gan gynnwys ar benwythnosau. Fodd bynnag, ni ddylid ariannu mwy na 30 awr mewn unrhyw wythnos. Os yw rhiant yn defnyddio llai na 30 awr mewn wythnos, ni all gronni'r oriau hyn i'w defnyddio mewn wythnos arall (ee os mai dim ond gwerth 25 awr o gyllid y Cynnig y mae rhiant yn ei ddefnyddio mewn wythnos, yna ni all gael 35 awr yr wythnos ganlynol).

35) Pan fo plentyn yn cael cynnig lle mewn addysg amser llawn (ysgol) cyn y mis Medi yn dilyn ei bedwerydd pen-blwydd yn 4 oed (sy'n codi'n 4 oed), mae'r plentyn hwnnw'n dal i fod yn gymwys i gael 30 awr yr wythnos o ddarpariaeth gofal plant adeg gwyliau, tan y mis Medi ar ôl ei bedwerydd pen-blwydd, hy dechrau'r tymor ysgol fel y'i pennir gan yr awdurdod lleol.

36) Gan fod y Cynnig yn darparu 30 awr yr wythnos o ddarpariaeth gwyliau, nid oes gan rieni plant sy'n defnyddio darpariaeth addysg feithrin yn Lloegr hawl i ddefnyddio eu horiau addysg "estynedig" yn ogystal â'u 30 awr o ddarpariaeth gwyliau. Oriau “estynedig" yw hawl plentyn (o dan ddarpariaeth gofal plant Lloegr) i gymryd llai o oriau'r wythnos dros fwy o wythnosau'r flwyddyn, lle mae gan ddarparwyr y gallu a bod galw am hyn gan rieni.

37) Ni chaiff lleoliadau ei gwneud yn ofynnol i deuluoedd sydd ar gontractau

blwyddyn gyfan archebu'r cyfnod 30 awr cyfan yn ystod cyfnodau gwyliau os nad ydynt eu hangen neu eu heisiau. Nid yw ei gwneud yn ofynnol i deuluoedd drefnu oriau ychwanegol y tu hwnt i'w bwriad yn gydnaws â'r Cynnig. Rhaid caniatáu i deuluoedd drefnu'r oriau y maent yn dymuno eu defnyddio, gan gydnabod ar yr un pryd y defnydd o drefniadau gofal sesiynol.

## Darpariaeth adeg gwyliau

38) Caniateir i rieni gario drosodd wythnosau gwyliau heb eu defnyddio o un tymor i'r nesaf ac o un flwyddyn academaidd i'r nesaf, cyhyd â bod y rhiant a'r plentyn yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig.

## Nodi pa wythnosau sy'n wythnosau gwyliau

39) Dylai rhieni fod â'r hawl i benderfynu ar gyfer pa wythnosau y byddant yn defnyddio'r ddarpariaeth adeg gwyliau, yn ystod gwyliau ysgol dynodedig yr awdurdod lleol, a nhw sy'n gyfrifol am ddod o hyd i leoliad gofal plant a all gynnig y ddarpariaeth hon.

40) Ni ddylai lleoliadau fod yn dynodi i rieni pa rai o'r 13 wythnos sy'n wythnosau gwyliau dynodedig o dan y Cynnig ychwaith. Bwriedir i hyn roi hyblygrwydd i rieni o ran sut maent yn defnyddio eu darpariaeth adeg gwyliau 9 wythnos.

41) Rhaid defnyddio'r ddarpariaeth adeg gwyliau fesul wythnos i sicrhau bod rhieni yn cadw hyblygrwydd wrth allu dewis pryd i ddefnyddio eu darpariaeth gwyliau. Pan fydd gwyliau ysgol yn dechrau ar ganol yr wythnos, fel sy'n digwydd mewn rhai blynyddoedd ar ddiwedd tymor yr haf, bydd yr wythnos hon yn cael ei hystyried fel wythnos wyliau. Goblygiadau hyn yw y gallai arwain at riant yn derbyn mwy na 30 awr o ddarpariaeth addysg feithrin a gofal plant cyfunol.

42) Caiff diwrnodau hyfforddiant mewn swydd eu hystyried yn ddyddiau yn ystod y tymor o dan y Cynnig, felly nid ellid eu trin fel darpariaeth adeg gwyliau.

43) Pan fydd wythnos wyliau yn cynnwys dechrau neu ddiwedd tymor ysgol newydd ac felly'n cynnwys rhai diwrnodau o ddarpariaeth addysg feithrin, ni fydd y platfform digidol yn talu am fwy na chyfanswm o 30 awr o ofal plant yn ystod yr wythnos honno. Felly, dylid didynnu unrhyw oriau gofal plant a ddefnyddir gan y rhiant yn ystod y dyddiau pan fo'r plentyn hefyd yn cael addysg feithrin o'r lwfans cyffredinol o 30 awr o ofal plant ar gyfer yr wythnos honno.

44) Gall y rhiant ddefnyddio beth bynnag sy'n weddill o'r lwfans gwyliau gofal plant 30 awr ar ddiwrnodau eraill yr wythnos. Yn yr achosion hyn, dylai awdurdodau lleol egluro i'r rhiant y bydd hyn yn cyfrif fel wythnos wyliau pe byddent yn penderfynu gwneud hyn ac y bydd yr awdurdod lleol yn ystyried bod y rhiant wedi defnyddio un o'i wythnosau gwyliau. Mae'n bosibl y byddai'n well i'r rhiant beidio â defnyddio ei hawl gwyliau yn ystod wythnos lle ceir un neu ddau ddiwrnod ysgol.

45) Os bydd y tymor pan fydd plentyn yn dod yn gymwys i gael y lle mewn addysg

amser llawn (ysgol) yn dechrau ar ddydd Iau neu ddydd Gwener (a bod o leiaf 3 o’r 5 diwrnod wedi’u dynodi’n wyliau ysgol), gellir ystyried yr wythnos gyfan yn wythnos wyliau at ddibenion darpariaeth gwyliau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys diwrnodau hyfforddiant mewn swydd na diwrnodau pan na chaniateir i’r plentyn ddod i’r ysgol o ganlyniad i ddechrau graddol.

46) Mae’r tymor a’r wythnosau gwyliau wedi’u pennu ymlaen llaw ar y platfform yn seiliedig ar ddata cyfeirio a ddarperir gan bob awdurdod lleol. O ganlyniad, nid yw’r platfform yn gallu darparu ar gyfer achosion lle mae plentyn yn mynychu ysgol gyda dyddiadau tymor sy’n wahanol i ysgolion eraill yn ardal yr awdurdod lleol neu ddarpariaeth drawsffiniol. Mewn achosion o’r fath, byddai angen i’r awdurdod lleol gyflwyno cais gan ddefnyddio Ffurflen Gais am Ôl-daliadau i wneud hawliad wedi’i ôl-ddyddio ar ran y lleoliad.

## Wythnosau nad ydynt yn cael eu hariannu o dan y Cynnig

47) Mae pedair wythnos nad ydynt yn cael eu hariannu mewn cyfnod o 12 mis, lle bydd angen i rieni ariannu unrhyw ddarpariaeth gofal plant eu hunain. Mae’n rhesymol disgwyl i rieni dalu’r pedair wythnos nad ydynt yn cael eu hariannu o dan y Cynnig, fel bod lleoliadau yn cael eu had-dalu’n llawn am eu staff drwy gydol y flwyddyn (gweler Atodiad 1 am enghreifftiau o sut mae hyn yn gweithio’n ymarferol). Os yw rhiant yn dymuno parhau i gael mynediad at leoliad am wythnosau nad ydynt yn cael eu hariannu, mae hyn yn fater preifat rhwng y rhiant a'r lleoliad. Fodd bynnag, mae'n rhesymol disgwyl i leoliad fod yn glir gyda rhieni pan fyddant yn defnyddio wythnosau nad ydynt yn cael eu hariannu cyn i'r lleoliadau hyn ddechrau.

## Adran 4 – Pwy sy'n gymwys i gael y Cynnig Gofal Plant

Mae'r adran a ganlyn yn nodi pwy sy'n gymwys i ddefnyddio'r Cynnig o ran plentyn a rhiant.

Gweithdrefnau Gweithredu Safonol perthnasol neu ganllawiau ychwanegol i gefnogi'r adran hon:

- Cynnig Gofal Plant Cymru: Rhieni mewn addysg neu hyfforddiant –
- Cynnig Gofal Plant Cymru: Asesu incwm rhieni i benderfynu cymhwystra ar gyfer y Cynnig - Cwestiynau Cyffredin i Awdurdodau Lleol

### Diffiniad o blentyn cymwys

48) Mae'r ddarpariaeth addysg feithrin sy'n rhan o'r Cynnig yn ddarpariaeth gyffredinol. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer elfen gofal plant y Cynnig, rhaid i blentyn fod yn 3 neu'n 4 oed, rhaid iddo beidio â bod yn gymwys i gael lle mewn addysg amser llawn (ysgol) eto a rhaid i'w riant/rieni hefyd fodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer rhieni fel y nodir yn y bennod hon.

49) Yn aml, bydd plant yn defnyddio elfen gofal plant y Cynnig ar yr un pryd â'r elfen addysg feithrin. Fel y nodir yn adran 2 y canllawiau hyn, mae hyn fel arfer yn dechrau o'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd, nes eu bod yn dod yn gymwys am le mewn addysg amser llawn (ysgol) - fel arfer y mis Medi ar ôl eu pedwerydd pen-blwydd.

50) Mewn rhai achosion, gall awdurdod lleol gynnig lleoedd addysg feithrin yn gynharach na'r dyddiadau a nodir yn adran 2. Mae hyn yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, ni all y plant hyn fanteisio ar elfen gofal plant a ariennir y Cynnig hyd nes y tymor **ar ôl** eu pen-blwydd yn dair oed. Ym mhob achos, uchafswm hyd gofal plant a ariennir yw 5 tymor.

51) Pan fydd plentyn wedi'i dderbyn i gael gofal plant wedi'i ariannu o dan y Cynnig, bydd yr union ddyddiad y bydd y ddarpariaeth gofal plant a ariennir yn dechrau yn dibynnu ar ddyddiad dechrau'r tymor ysgol o fewn yr awdurdod lleol. Caiff diwrnod cyntaf y tymor ei bennu gan yr awdurdod lleol ac felly gall yr union ddyddiad pan fo plentyn yn gallu manteisio ar y Cynnig amrywio rhwng awdurdodau lleol. Ond mae'r elfen gofal plant bob amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf y tymor ysgol ar ôl i'r plentyn droi'n 3 oed.

52) Mae cymhwystra yn dechrau pan fydd awdurdod lleol yn penderfynu bod cais rhiant yn gymwys a'i fod wedi hysbysu'r rhiant o'r penderfyniad hwn. Bydd dyddiad dechrau'r gofal plant a ariennir yn cael ei bennu gan ddyddiad dechrau Cytundeb y Cynnig, y mae'r rhiant a'r lleoliad yn cytuno arno. Mae'r rhiant yn cyflwyno Cytundeb ar-lein i'w gymeradwyo neu ei wrthod gan y lleoliad gofal plant o'i ddewis.

53) Y Cytundeb ar-lein yw pan fydd rhiant yn gofyn am ddarpariaeth ar-lein gyda lleoliad gofal plant ac mae'r lleoliad gofal plant yn derbyn y cytundeb hwn. Nid yw'n disodli unrhyw gontract all-lein rhwng y lleoliad a'r rhiant a allai fod angen cytundeb y rhieni. Mae hwn yn drefniant lleol rhwng rhiant a lleoliad gofal plant.

## Dechrau addysg amser llawn

54) Mae plentyn yn dod yn anghymwys ar gyfer y Cynnig unwaith y bydd yn gymwys i gael lle mewn addysg amser llawn (ysgol). Y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed fydd hyn fel arfer.

55) Pan fo plentyn yn cael cynnig lle mewn addysg amser llawn yn gynharach na'r mis Medi ar ôl iddo droi'n 4 oed, ni fydd yn gymwys mwyach i gael elfen gofal plant y Cynnig yn ystod y tymor. Fodd bynnag, gall y rhiant barhau i gael hyd at 30 awr o ofal plant a ariennir y tu allan i'r tymor ysgol, am hyd at 9 'wythnos wyliau'.

56) Bydd cymhwystra rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig mewn lleoliad sydd mewn awdurdod lleol gwahanol i'r un lle maent yn byw yn dibynnu ar y dyddiadau a bennwyd gan yr awdurdod lleol lle maent yn byw ynghylch derbyn plant i ddarpariaeth ysgol amser llawn.

**Senario**
Mae rhiant yn byw yn Awdurdod A, ond yn defnyddio darpariaeth y Cynnig yn Awdurdod B. Bydd yn cael cynnig lle mewn addysg amser llawn ar gyfer ei blentyn gan Awdurdod A o ddechrau'r tymor y mae ei blentyn yn troi'n 4 oed ynddo. Ond, yn Awdurdod B mae plant yn gymwys i gael lle mewn addysg amser llawn yn y tymor wedi iddynt droi'n 4 oed. Yn yr achos hwnnw, nid yw rhiant yn gymwys i gael elfen gofal plant y Cynnig yn ystod y tymor ysgol ar yr adeg y bydd yn cael cynnig lle mewn addysg amser llawn gan Awdurdod A.

## Diffiniad o riant cymwys

57) I fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig, rhaid i'r rhieni neu'r rhiant y mae'r plentyn yn preswylio gydag ef yn bennaf fyw yng Nghymru. Hefyd, rhaid iddynt fodloni'r canlynol:

- bod â phlentyn 3 neu 4 oed
- bod ag incwm gros o £100,000 neu lai fesul rhiant, y flwyddyn
- bod yn gyflogedig ac yn ennill o leiaf swm cyfwerth ag 16 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw ar gyfartaledd,
- bod wedi cofrestru ar gwrs addysg bellach neu addysg uwch sydd o leiaf 10 wythnos o hyd.

58) Ystyr rhiant yw person sydd fel arfer yn byw gyda'r plentyn ac sy'n gyfrifol amdano, neu bartner person o'r fath. Yn y canllawiau hyn mae'r term rhiant yn cyfeirio at rieni, gwarcheidwaid cyfreithiol, llys-rieni a phartneriaid hirdymor sy'n byw ar yr un aelwyd â'r plentyn. Mae hyn yn cynnwys gofalwyr sy'n berthnasau a gwarcheidwaid arbennig, gofalwyr maeth a gofalwyr sy'n mabwysiadu hefyd.

Ni fydd oedolion eraill sy'n byw yn y cartref (fel lletywyr, teulu estynedig, brodyr a chwiorydd etc.) yn cael eu hystyried yn rhieni o dan y Cynnig, oni bai bod ganddynt gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn hefyd.

59) Mewn aelwyd dau riant, bydd angen i'r ddau riant fodloni'r diffiniad o naill ai rhiant sy'n gweithio neu riant mewn addysg neu hyfforddiant i fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Mewn aelwyd un rhiant, bydd angen i'r unig riant fodloni'r diffiniad o naill ai rhiant sy'n gweithio neu riant mewn addysg neu hyfforddiant er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig.

**Ystyried Nodweddion Gwarchodedig mewn Penderfyniadau ynghylch Cymhwysedd**

60) Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod pob penderfyniad sy'n ymwneud â'r Cynnig yn cael ei wneud yn unol â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw dyladwy i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu. Efallai y bydd ystod eang o nodweddion gwarchodedig gan rieni a gofalwyr sy'n gwneud cais am y Cynnig, a dylai awdurdodau ystyried pob achos mewn ffordd deg, wrthrychol a chyson.

61) Lle bo ansicrwydd, dylai awdurdodau lleol ofyn am gyngor yn brydlon a chofnodi eu hystyriaethau ynghylch cydraddoldeb wrth ddod i benderfyniad. Mae'r dull gweithredu hwn yn sicrhau bod pob rhiant yn cael ei drin yn deg, gan warchod uniondeb, diben a thegwch y Cynnig Gofal Plant ar yr un pryd.

## Diffiniad o riant sy'n gweithio

62) Mae rhiant sy'n gweithio yn rhiant sydd naill ai'n gyflogedig neu'n hunangyflogedig. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd ar brentisiaethau, contractau dim oriau, rhieni sy'n gweithio yn ystod y tymor yn unig a hefyd y rhai sydd newydd ddod yn hunangyflogedig.

63) I fod yn gymwys, rhaid i'r rhiant fodloni'r meini prawf enillion dros gyfnod o 3 mis. Ystyr meini prawf enillion gofynnol yw bod rhaid iddynt ennill, ar gyfartaledd, yr hyn sy'n gyfwerth ag o leiaf 16 awr yr wythnos ar yr isafswm cyflog perthnasol sy'n gymwys iddynt. Ystyr isafswm cyflog yw naill ai'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, y Cyflog Byw Cenedlaethol neu'r Isafswm Cyflog Prentisiaeth ar y gyfradd sy'n berthnasol i'w hoedran ("yr isafswm cyflog perthnasol" o hyn ymlaen).

64) Wrth asesu a yw rhiant yn bodloni meini prawf isafswm incwm, mae'n bwysig ystyried felly a yw'r rhiant neu'r rhieni yn derbyn incwm o'u gwaith. **Mae pob incwm o'r gwaith yn cyfrif tuag at yr isafswm incwm.**

65) Dylai rhieni cyflogedig gyflwyno tystiolaeth bod y ddau yn ennill yr isafswm sy'n ofynnol drwy ddarparu, adeg cyflwyno cais, tystiolaeth o'u henillion dros y 3 mis diwethaf. Os bydd rhiant wedi cael swydd newydd neu os yw wedi newid cyflogwyr yn ddiweddar ac na all darparu tystiolaeth o'i enillion dros y 3 mis

diwethaf, bydd contract neu lythyr gan y cyflogwr yn cadarnhau'r gyflogaeth, y dyddiad dechrau a'r enillion yn ddigonol (gweler adran 11 i gael rhagor o fanylion ynghylch gwirio cymhwystra a'r canllawiau atodol ar asesu incwm rhieni i benderfynu cymhwystra ar gyfer y Cynnig). Yn ystod y tymor dim ond rhieni sy'n gweithio, sy'n cyflawni'r meini prawf isafswm cyflog yn ystod yr amser y maent yn gweithio, sy'n gallu cael 48 wythnos llawn y Cynnig, sy'n cynnwys y 9 wythnos wyliau.

66) Dylai rhiant hunangyflogedig ddangos ei fod yn ennill yr isafswm sy'n ofynnol drwy ei ffurflen dreth hunanasesu neu drwy dystiolaeth o incwm tebygol dros y flwyddyn dreth nesaf. Byddai rhiant sydd newydd ddod yn hunangyflogedig wedi'i eithrio o'r meini prawf enillion am y 12 mis cyntaf ar ôl sefydlu'r busnes, ond dylid gofyn iddo ddarparu tystiolaeth bod y busnes hwnnw wedi'i sefydlu (gweler adran 11 i gael rhagor o fanylion ynghylch gwirio cymhwystra).

67) Wrth gymhwyso'r meini prawf isafswm incwm nid yw'r canlynol yn cyfrif fel incwm o'r gwaith gan nad oes unrhyw gysylltiad uniongyrchol na chlir rhwng yr oriau a gaiff eu gweithio a'r incwm a geir (neu os oes cysylltiad, nid yw'n hawdd darparu tystiolaeth ohono):

- Incwm difidend ac incwm arall o fuddsoddiadau;
- Benthyciadau cyfarwyddwyr.

68) Ar yr amod bod y rhiant yn byw yng Nghymru, bydd incwm a enillir gan fusnes sydd wedi'i gofrestru y tu allan i'r DU yn cyfrif tuag at y meini prawf isafswm enillion.

69) Ni fydd rhiant sy'n gweithio sydd ag incwm gros yn y flwyddyn dreth bresennol o fwy na £100,000 yn gymwys ar gyfer y Cynnig. At ddibenion y polisi hwn, mae incwm gros yn golygu cyfanswm yr incwm cyn unrhyw ddidyniadau gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i dreth incwm, yswiriant gwladol, cyfraniadau pensiwn, yswiriant iechyd, taliadau bonws/difidend blynyddol neu gyfnodol a chynlluniau aberthu cyflog.

70) Dylai Awdurdodau Lleol gyfeirio at y ddogfen 'Cynnig Gofal Plant Cymru: Asesu incwm rhieni i benderfynu cymhwystra ar gyfer y Cynnig' i'w cynorthwyo i asesu cymhwystra rhieni ar sail incwm.

## Diffiniad o riant mewn addysg neu hyfforddiant

71) Gall rhiant mewn addysg neu hyfforddiant fod yn rhiant sydd naill ai:

- wedi cofrestru ar gwrs israddedig neu ôl-raddedig Addysg Uwch (AU) a gyflwynir gan sefydliad a ariennir yn gyhoeddus sydd o leiaf 10 wythnos o hyd. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau a gyflwynir drwy ddysgu o bell.
- wedi cofrestru ar gwrs sy'n 10 wythnos o leiaf ac sy'n cael ei gyflwyno mewn Sefydliad Addysg Bellach (AB) a ariennir yn gyhoeddus neu goleg chweched dosbarth mewn ysgol. Nid yw'r cyrsiau hyn yn cynnwys dysgu o bell.

72) Dylai rhieni mewn addysg neu hyfforddiant brofi eu bod yn gymwys drwy ddarparu tystiolaeth o gofrestru ffurfiol ar gwrs AU neu AB perthnasol. Os yw rhiant wedi gwneud cais a chael cynnig lle ar gwrs AU neu AB perthnasol, ond nad yw wedi gallu cofrestru eto, dylai ddarparu tystiolaeth o gynnig ffurfiol o le ar gwrs.

73) Byddai rhiant mewn addysg neu hyfforddiant sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra yn gallu manteisio ar y Cynnig o'r adeg y mae ei gwrs yn dechrau. Gall awdurdodau lleol gael mynediad at restr o sefydliadau AU/AB a ariennir yn gyhoeddus cymeradwy yn Objective Connect.

## Gofalwyr sy'n berthnasau a gwarcheidwaid arbennig

74) Mae Gofal gan Berthynas yn drefniant gofal teulu a ffrindiau, lle mae plentyn na all ei riant/rhieni neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant ofalu amdano, yn mynd i fyw gyda pherthynas, ffrind neu berson arall cysylltiedig. Gall y trefniant fod yn breifat rhwng y rhiant/rhieni a'r perthynas, y ffrind, neu'r person cysylltiedig, neu gall godi o ganlyniad i gyfranogiad gwasanaethau plant.

75) Mae gofalwyr sy'n berthnasau a gofalwyr sydd â Gorchymyn Gwarcheidwad Arbennig yn gallu manteisio ar y Cynnig cyhyd â'u bod:

- yn bodloni'r holl feini prawf cymhwystra ar gyfer rhieni;
- yn gofalu am blentyn sy'n 3 i 4 oed ac sy'n gymwys i fanteisio ar y Cynnig; ac,
- yn byw gyda'r plentyn.

Mae angen i bartneriaid gofalwyr sy'n berthnasau, p'un a yw'r ddau oedolyn yn ofalwyr sy'n berthnasau ai peidio ac yn byw yn yr un cartref â'r plentyn hefyd, fodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer rhieni hefyd.

76) Nid yw'r lwfans gwarcheidiaeth arbennig yn cael ei ystyried yn incwm trethadwy ac felly nid yw'n cyfrif fel incwm ac ni ddylid ei ystyried wrth asesu a ydynt yn bodloni'r meini prawf o ran isafswm incwm.

## Gofalwyr maeth a rhieni sy'n mabwysiadu

77) Os bydd rhiant maeth yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer rhieni, gall fanteisio ar y Cynnig ar gyfer unrhyw un o'i blant sydd o oed cymwys. Mae hyn yn cynnwys eu plentyn/plant maeth, ar yr amod bod y gofal plant yn gydnaws â chynllun gofal eu plentyn maeth.

78) Gall gofalwyr maeth ddefnyddio eu lwfans maethu fel prawf o enillion er mwyn bodloni'r meini prawf o ran isafswm incwm ar gyfer y Cynnig. At ddibenion y Cynnig, mae gofalwyr maeth yn cael eu hystyried yn hunangyflogedig.

79) Os bydd rhiant sydd ar absenoldeb mabwysiadu yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer rhieni, gall fanteisio ar y Cynnig ar gyfer unrhyw un o'i blant sydd o oed cymwys. Mae hyn yn cynnwys y plentyn wedi'i fabwysiadu,

cyn belled â bod y trefniant gofal plant yn gydnaws â chynllun cymorth mabwysiadu'r plentyn.

80) Gallai gofalwyr sefydlogrwydd cynnar yng Nghymru gael eu cynnwys yn y garfan faethu uchod tra byddant yn maethu'r plentyn cyn i orchymyn lleoli gael ei roi a chyn y newid yn statws lleoliad y plentyn i statws mabwysiadu.

## Rhieni nad yw cyllid cyhoeddus ar gael iddynt

81) Nid yw'r ffaith nad yw cyllid cyhoeddus ar gael i rieni yn golygu **na chânt fanteisio** ar y Cynnig. Caiff rhieni sy'n destun rheolaeth fewnfudo, fel y'u diffinnir gan Adran 115(9) Deddf Mewnfudo a Lloches 1999 fanteisio ar y Cynnig cyn belled â'u bod yn bodloni'r holl feini prawf cymhwystra eraill.

## Rhieni yn y Lluoedd Arfog

82) Bydd rhieni sy'n aelodau o'r Lluoedd Arfog sy'n byw yng Nghymru yn gallu manteisio ar y Cynnig cyn belled â'i bod yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer rhieni.

83) Yn achos aelwydydd dau riant lle mae un rhiant yn gweithio neu mewn addysg neu hyfforddiant (ac yn bodloni'r meini prawf cymhwystra i rieni) a'r llall yn cael taliadau gan y Lluoedd Arfog i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi'u niweidio'n ddifrifol (er enghraifft, Gwarant Talu Incwm), bydd y teuluoedd hynny'n gymwys i gael y Cynnig. Fodd bynnag, yn achos aelwydydd lle bo un rhiant yn derbyn budd-dal eithrio (fel y nodir ym mharagraff 83), a'r llall yn cael taliad anabledd gan y Lluoedd Arfog, ni fydd y teuluoedd hynny'n gymwys i gael y Cynnig.

84) Yn achos rhieni sy'n gwasanaethu dramor ond sy'n byw yng Nghymru fel arfer, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn adlewyrchu'r ddarpariaeth a roddir o dan y Cynnig Gofal Plant yn Lloegr.

## Aelwydydd digartref

85) Yn achos rhieni sy'n ddigartref ond sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer rhieni, mae'r teuluoedd hynny'n gymwys i gael y Cynnig. Os oes gan y teulu drefniant byw dros dro (fel byw gyda ffrindiau) ac nad oes ganddynt fil y Dreth Gyngor i'w ddefnyddio fel tystiolaeth o breswylio, gellid defnyddio dogfen arall. Gallai hyn gynnwys y cyfeiriad a ddefnyddir i gofrestru'r plentyn ar gyfer lle mewn addysg neu lythyr gan eu swyddog tai/darparwr cymdeithasau tai yn cadarnhau eu bod ar restr aros am lety yn yr ardal.

## Aelwydydd mewn cymunedau sy'n teithio

86) Mae rhieni mewn cymunedau sy'n teithio sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra i rieni yn gymwys i gael y Cynnig. Os ydynt yn byw ar lain parhaol dylent fod yn gallu darparu llythyr treth gyngor neu dystiolaeth eu bod yn talu'r dreth gyngor. Os nad ydynt yn gallu darparu tystiolaeth eu bod yn talu'r dreth gyngor, byddai

unrhyw ohebiaeth swyddogol a anfonwyd atynt yn ddigonol cyn belled â bod y cyfeiriad yn cyfateb i'r cyfeiriad ar y ffurflen gais. Hefyd, os ydynt wedi cael lle mewn addysg feithrin, bydd y cais hwnnw yn ddigonol fel tystiolaeth o breswylio.

## Eithriadau ar gyfer aelwydydd dau riant sy'n bodloni'r meini prawf o ran enillion neu sydd mewn addysg a hyfforddiant.

87) Dyma'r eithriadau ar gyfer aelwydydd dau riant sy'n bodloni'r meini prawf o ran enillion neu sydd mewn addysg neu hyfforddiant:

- mae un rhiant yn gyflogedig neu mewn addysg neu hyfforddiant (ac mae'n bodloni'r meini prawf cymhwystra i rieni) ac mae gan un rhiant gyfrifoldebau gofalu sylweddol. Mae hyn yn seiliedig ar fudd-daliadau penodol a dderbynnir ar gyfer gofalu; neu
- mae'r ddau riant yn gyflogedig (ac yn bodloni'r meini prawf cymhwystra i rieni) ond bod un rhiant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu statudol neu absenoldeb rhiant di-dâl; neu
- mae'r ddau riant mewn addysg neu hyfforddiant (ac yn bodloni'r meini prawf cymhwystra i rieni) ond mae un rhiant neu'r ddau riant wedi rhoi'r gorau i'w hastudiaethau'n ffurfiol dros dro am resymau sy'n ymwneud ag absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu neu absenoldeb rhiant; neu
- mae'r ddau riant mewn addysg neu hyfforddiant (ac yn bodloni'r meini prawf cymhwystra i rieni) ond mae un rhiant neu'r ddau riant wedi rhoi'r gorau i'w hastudiaethau'n ffurfiol dros dro oherwydd salwch hirdymor;
- cyflogir un rhiant ac mae un rhiant mewn addysg neu hyfforddiant (ac mae'n bodloni'r meini prawf cymhwystra rhiant) ond mae'r rhiant sy'n gweithio i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb statudol mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu neu absenoldeb rhiant di-dâl a/neu mae'r rhiant sydd mewn addysg neu hyfforddiant wedi rhoi'r gorau i'w astudiaethau'n ffurfiol dros dro am resymau'n ymwneud ag absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu neu absenoldeb rhiant; neu
- cyflogir y ddau riant (ac maent yn bodloni'r meini prawf cymhwystra i rieni) ond mae un rhiant neu'r ddau riant i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar dâl salwch statudol;
- cyflogir un rhiant ac mae un rhiant mewn addysg neu hyfforddiant (ac yn bodloni'r meini prawf cymhwystra i rieni) ond mae'r rhiant sy'n gweithio i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar dâl salwch statudol a/neu mae'r rhiant sydd mewn addysg neu hyfforddiant wedi rhoi'r gorau i'w astudiaethau'n ffurfiol dros dro oherwydd salwch hirdymor; neu
- mae un rhiant yn gyflogedig neu mewn addysg neu hyfforddiant (ac yn bodloni'r meini prawf cymhwystra i rieni) ac mae un rhiant yn anabl neu'n analluog o ran iechyd. Mae hyn yn seiliedig ar y ffaith bod y rhiant yn derbyn un o'r budd-daliadau cymwys a ganlyn, neu'n meddu ar hawl sylfaenol i un ohonynt:

    - Budd-dal analluogrwydd;
    - Lwfans gofalwr, neu elfen Gofalwyr Credyd Cynhwysol;

- Lwfans anabledd difrifol;
- Budd-dal analluogrwydd hirdymor;
- Lwfans cyflogaeth a chymorth; neu
- Credydau yswiriant gwladol ar sail anallu i weithio neu allu cyfyngedig i weithio;
- Credyd Cynhwysol lle aseswyd bod gan yr unigolyn allu cyfyngedig i weithio.

Mae hawl sylfaenol yn golygu eich bod yn gymwys i gael budd-dal ond na fyddwch yn ei dderbyn oherwydd y rheol budd-daliadau sy'n gorgyffwrdd, ee efallai y bydd rhywun yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer Lwfans Gofalwyr ond eisoes yn hawlio Pensiwn y Wladwriaeth sy'n fwy na'r taliad Lwfans Gofalwyr.

Mae'r rheol budd-daliadau sy'n gorgyffwrdd yn cwmpasu amgylchiadau pan fydd unigolyn yn gymwys i gael dau neu ragor o fudd-daliadau yn lle enillion ond dim ond un o'r budd-daliadau hyn y gellir eu talu (yr un sy'n rhoi'r mwyaf o arian iddo). Er enghraifft, os oes gan berson hawl i Lwfans Gofalwyr o £81.90 yr wythnos ac mae Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth y mae'n ei gael yn £170.00 yr wythnos, bydd y person yn derbyn ei Bensiwn y Wladwriaeth a bydd ganddo hawl sylfaenol i Lwfans Gofalwyr. Gallai'r hawl sylfaenol i Lwfans Gofalwyr olygu ei fod yn cael dyfarniad uwch o fudd-dal prawf modd fel Credyd Pensiwn.

88) Mewn teuluoedd dau riant lle bo un rhiant yn gweithio neu mewn addysg neu hyfforddiant a'r llall wedi ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd, byddant yn gymwys os bydd y rhiant yr effeithir arno yn methu gweithio oherwydd y mater iechyd a'i gorfododd i ymddeol a'i fod yn cael un o'r budd-daliadau cymwys a restrir uchod, neu fod ganddo hawl sylfaenol i gael un ohonynt. Yn achos teulu un rhiant, ni fyddent yn gymwys bellach pe byddai'r rhiant yn ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd. Mae'n rhaid i un aelod o'r aelwyd fod yn gweithio neu mewn addysg neu hyfforddiant er mwyn bod yn gymwys i gael y Cynnig.

89) Gall aelwyd dau riant lle mae un rhiant yn gweithio neu mewn addysg neu hyfforddiant a'r llall wedi ymddeol ar ôl cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth, fod yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig os oedd y rhiant sydd wedi ymddeol yn derbyn un neu fwy o'r budd-daliadau cymwys a restrir ym mharagraff 83 yn union cyn cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

## Eithriadau lle nad oes rhaid i aelwydydd un rhiant fodloni'r meini prawf enillion neu orfod bod mewn addysg a hyfforddiant.

90) Rhaid i'r unig riant mewn teulu un rhiant fod yn gweithio neu fod mewn addysg neu hyfforddiant a bodloni'r meini prawf cymhwystra i rieni. Yr unig eithriad i hyn yw:

- bod y rhiant yn cael ei gyflogi (ac yn bodloni'r meini prawf cymhwystra i rieni) ond ei fod i ffwrdd o'r gweithle dros dro ar absenoldeb salwch, mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu statudol neu ar absenoldeb rhiant di-dâl; neu
- mae'r rhiant mewn addysg neu hyfforddiant (ac yn bodloni'r meini prawf

cymhwystra i rieni) ond mae wedi rhoi'r gorau i'w astudiaeth yn ffurfiol dros dro am resymau'n ymwneud ag absenoldeb mamolaeth, absenoldeb tadolaeth, absenoldeb mabwysiadu neu absenoldeb rhiant neu oherwydd salwch hirdymor.

## Rhieni sydd wedi gwahanu

91) Os yw rhieni wedi gwahanu ond nad yw'r plentyn yn byw gyda'i rieni am gyfnodau cyfartal, ystyrir bod y plentyn yn rhan o aelwyd y rhiant y mae'n byw gydag ef yn bennaf.

92) Os yw rhieni wedi gwahanu a bod y plentyn yn byw gyda'i rieni am gyfnodau cyfartal, bydd angen i un o'r rhieni gael ei enwebu i weithredu fel y rhiant arweiniol at ddibenion y Cynnig. Lle nad yw'r rhieni'n gallu cytuno ar hynny, dylid cyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol er mwyn penderfynu yn ei gylch. Mater i'r rhieni yw'r modd y mae'r gofal plant yn cael ei ddefnyddio a'i ddyrannu rhwng yr amser y mae'r plentyn yn ei dreulio gyda'r ddau riant.

## Gofal Plant Di-dreth a Chredyd Cynhwysol

93) Caiff rhieni fanteisio ar Ofal Plant Di-dreth neu Gredyd Cynhwysol ar yr un pryd â'r Cynnig ar gyfer unrhyw oriau ychwanegol o ofal plant a dalant amdano mewn perthynas â'u plentyn neu blant eraill yn y teulu. Ni all rhieni hawlio budd-daliadau eraill ar gyfer unrhyw oriau gofal plant y maent yn ei gael o dan y Cynnig.

# Adran 5 – Beth sy'n digwydd pan fydd rhiant yn peidio â bod yn gymwys mwyach

Mae'r adran a ganlyn yn nodi'r hyn a fydd yn digwydd pan fydd rhiant sy'n derbyn y Cynnig yn peidio â bod yn gymwys mwyach.

Gweithdrefnau Gweithredu Safonol perthnasol neu ganllawiau ychwanegol i gefnogi'r adran hon:

- Cynnig Gofal Plant Cymru: Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer awdurdodau lleol - Ceisiadau gan Rieni

## Diffiniad o Gyfnod Esemptio Dros Dro

94) O dan y Cynnig, mae cyfnod esemptio dros dro yn gyfnod o 8 wythnos pan fydd teulu'n parhau i fod yn gymwys i gael cymorth er nad yw bellach yn bodloni'r meini prawf cymhwystra oherwydd newidiadau yn ei amgylchiadau, neu os nad yw'n glir a yw rhiant yn dal i fod yn gymwys ai peidio. Er enghraifft, rhiant sydd heb ymateb i wiriad o gymhwystra parhaus (a elwir hefyd yn wiriad 100%) neu ailwiriad (a elwir hefyd yn wiriad 20%).

## Pwrpas Cyfnod Esemptio Dros Dro

95) Pwrpas cyfnod esemptio dros dro yw darparu sefydlogrwydd i blant a lleoliadau gofal plant wrth roi amser i bob parti wneud trefniadau newydd os oes angen. Mae'n rhoi cyfle i rieni ailsefydlu eu cymhwystra hefyd, os yw'n berthnasol. Gall rhieni barhau i fanteisio ar y Cynnig yn ystod y cyfnod hwn. Mae yna nifer o resymau y gellir rhoi rhiant mewn cyfnod esemptio dros dro, a gellir datrys llawer ohonynt heb seibiant mewn cyllid.

## Hyd y Cyfnod Esemptio Dros Dro

96) Yr hiraf y gall cyfnod esemptio dros dro fod yn gymwys yw 8 wythnos.

## Beth sy'n digwydd pan fydd rhiant yn cael ei roi mewn cyfnod esemptio dros dro

97) Pan fydd rhiant yn dechrau cyfnod esemptio dros dro, bydd yn cael ei hysbysu o'r dyddiad y bydd y cyllid yn dod i ben:

- bydd yn derbyn e-bost
- bydd dangosfwrdd ei gyfrif ar gyfer y Cynnig Gofal Plant yn arddangos hysbysiad

98) Bydd rhieni'n parhau i dderbyn cyllid yn ystod cyfnod esemptio dros dro. Mae

hyn yn rhoi amser iddynt ailgyflwyno tystiolaeth o'u cymhwystra neu ddarparu tystiolaeth newydd os oes angen. Os na ddarperir tystiolaeth, yna bydd cyllid yn dod i ben pan ddaw'r cyfnod esemptio i ben. Gellir ôl-ddyddio cyfnod esemptio dros dro hyd at 4 wythnos. Er enghraifft, os cafodd rhiant ei ddiswyddo ond nad oedd wedi rhoi gwybod i ni am 6 wythnos, caiff ei gyfnod esemptio ei ôl-ddyddio 4 wythnos a bydd 4 wythnos yn weddill.

99) Os yw'r cyllid yn dod i ben, efallai y bydd angen i rieni dalu'r lleoliad gofal plant eu hunain. Dywedir wrth y lleoliad gofal plant bod cytundeb yn dod i ben 4 wythnos cyn i'r cyllid ddod i ben. Nid yw'r hysbysiad hwn yn disodli unrhyw gyfnod rhybudd y mae rhieni'n gyfrifol amdano o dan eu contract gyda'r lleoliad. Rhaid i rieni wirio eu contract i gadarnhau a yw'r lleoliad yn gofyn am rybudd i ddod â'u cytundeb â'r lleoliad i ben.

## Faint o Gyfnodau Esemptio Dros Dro y gellir eu cymhwyso

100) Dim ond un cyfnod esemptio dros dro all fod yn gymwys ar unrhyw adeg benodol, ond yn ystod cyfnod rhiant ar y Cynnig, gellir rhoi rhiant mewn sawl cyfnod esemptio dros dro cyhyd â bod awdurdod lleol yn sicrhau bod unrhyw gyfnod esemptio dros dro blaenorol wedi'i ddatrys.

## Rhoi diwedd ar Gyfnod Esemptio Dros Dro yn gynnar

101) Ni ellir ymestyn cyfnod esemptio dros dro ond gellir ei derfynu'n gynnar os yw awdurdod lleol yn fodlon bod rhiant yn bodloni'r meini prawf cymhwystra i barhau i gael mynediad at y Cynnig. Er enghraifft, pe byddai rhiant yn peidio â bod yn gymwys mwyach, ac yn defnyddio cyfnod esemptio dros dro (yn rhannol neu yn llawn) - ac wedyn mae'r rhiant hwnnw mewn sefyllfa lle y mae'n gymwys eto, gallai gael cyfnod esemptio dros dro arall pe byddai'n peidio â bod yn gymwys mwyach am yr eildro neu am drydydd tro.

## Rhieni yn archebu oriau'r Cynnig Gofal Plant pan mewn Cyfnod Esemptio Dros Dro

102) Gall rhiant barhau i drefnu oriau'r Cynnig gyda'r lleoliad o'i ddewis tra bydd mewn cyfnod esemptio dros dro. Fodd bynnag, ni ddylai rhiant sydd mewn cyfnod esemptio dros dro drefnu oriau'r Cynnig os nad yw'n bwriadu i'w blentyn fynychu am yr oriau hynny.

## Pan fo Cyfnod Esemptio Dros Dro yn gymwys

103) Efallai y bydd rhieni'n peidio â bod yn gymwys mwyach ar gyfer y Cynnig, hyd yn oed pan fydd eu plentyn yn gymwys o hyd. Mae nifer o senarios a allai arwain at rieni'n cael eu rhoi mewn cyfnod esemptio dros dro. Mae hyn yn cynnwys un rhiant neu'r ddau riant yn colli eu swydd, enillion rhieni'n gostwng i lai na'r isafswm sy'n ofynnol, enillion rhieni'n mynd y tu hwnt i'r uchafswm

trothwy incwm neu nad yw rhiant wedi'i gofrestru ar gwrs addysg neu hyfforddiant perthnasol mwyach. Os bydd amgylchiadau rhiant yn newid, gan effeithio ar ei gymhwystra parhaus, dylai awdurdodau lleol roi'r rhiant mewn cyfnod esemptio dros dro.

104) Mae amgylchiadau cyfyngedig lle mae rhiant yn gwneud newid nad yw'n effeithio ar gymhwystra. Mae hyn os bydd rhiant yn newid ei fanylion cyswllt (cyfeiriad e-bost a/neu rif ffôn). Os yw'r rhiant yn gwneud newidiadau i'r manylion hyn yn unig, ni ddylid ei roi mewn cyfnod esemptio dros dro.

105) Dylai cyfnod esemptio dros dro ddechrau o ddyddiad y newid mewn amgylchiadau, nid y dyddiad y hysbysir yr awdurdod lleol. Os yw'r rhiant yn parhau i fod yn anghymwys ar ddiwedd y cyfnod, ni fydd yn gallu cael elfen oriau gofal plant y Cynnig mwyach a bydd yn gyfrifol am yr holl gostau gofal plant cysylltiedig o ddyddiad diwedd y cyfnod esemptio dros dro ymlaen.

106) Rhaid i rieni roi gwybod i'w hawdurdod lleol am unrhyw newidiadau i'w hamgylchiadau ar unwaith. Os na fyddant yn gwneud hynny, dylid ôl-ddyddio dyddiad dechrau'r cyfnod esemptio dros dro hyd at ddyddiad y newid, hyd at uchafswm o 4 wythnos. Mae'r cyfnod esemptio dros dro sy'n weddill yn caniatáu cyfnod o sefydlogrwydd i'r plentyn a lleoliad.

107) Ni ddylid ar unrhyw gyfrif ddefnyddio cyfnod esemptio dros dro (neu'r Cynnig yn ei gyfanrwydd) i drefnu oriau gofal plant er mwyn talu ffioedd cadw a godir gan leoliad, pan na fo'r plentyn yn mynychu'r lleoliad yn ystod yr oriau hyn. Cyfrifoldeb contractiol y rhiant yw ffioedd o'r fath o hyd.

108) Gall rhiant gael mwy nag un cyfnod esemptio dros dro yn ystod ei gyfnod o gymhwystra ond ni all gael dau ar yr un pryd. Er enghraifft pe byddai rhiant yn peidio â bod yn gymwys mwyach, ac yn defnyddio cyfnod esemptio dros dro (yn rhannol neu yn llawn) - ac wedyn mae'r rhiant hwnnw mewn sefyllfa lle y mae'n gymwys eto, gallai gael cyfnod esemptio dros dro arall pe byddai'n peidio â bod yn gymwys mwyach am ail dro neu am drydydd tro. Nid oes cyfyngiad ar nifer y cyfnodau esemptio dros dro y gallai rhiant eu cael.

109) Pan fydd cyfnod esemptio dros dro rhiant yn dod i ben, ac nad yw'n gymwys mwyach, bydd angen iddo wneud cais am y Cynnig eto ac ailsefydlu ei gymhwystra os yw'n dymuno derbyn y Cynnig.

110) Mae'r ffenestr ymgeisio ar gyfer y Cynnig yn agor 75 diwrnod cyn i blentyn gael mynediad at oriau a ariennir. Os bydd rhiant yn gwneud cais cyn y dyddiad y mae cymhwystra eu plentyn ar gyfer y Cynnig yn dechrau, ond bod y rhiant yn peidio â bod yn gymwys cyn i'w blentyn ddechrau derbyn gofal plant o dan y Cynnig, yna nid oes ganddynt hawl i gael eu rhoi mewn cyfnod esemptio dros dro.

## Cymeradwyo Ceisiadau Ymlaen Llaw

111) Lle asesir rhiant yn gymwys cyn y tymor pan fydd eu plentyn yn gymwys ar gyfer y Cynnig, ond eu bod yn eu cael eu hunain yn anghymwys cyn dechrau'r tymor hwnnw, ni fyddant fel rheol yn gymwys ar gyfer cyfnod esemptio dros

dro. Mae rhieni yn gyfrifol am roi gwybod i'w Hawdurdod Gweithredu ynghylch y newid ar unwaith fel y gellir tynnu eu henw o'r Cynnig. Os na fydd y rhiant yn rhoi gwybod i'w Hawdurdod Gweithredu mewn da bryd, a bod y gofal plant a ariennir drwy'r Cynnig wedi cychwyn, dylid rhoi gwybod iddynt bod eu cyllid yn dod i ben ar unwaith, a dylid dilyn y weithdrefn orhawlio mewn perthynas â phob hawliad a wnaed ar gyfer eu plentyn.

112) Mae dau senario lle na fydd rhiant yn gallu darparu'r holl dystiolaeth o gymhwystra ymlaen llaw i fodloni'r awdurdod lleol a chael manteisio ar gyfnod esemptio dros dro ar unwaith.

## Rhieni sy'n dechrau addysg a hyfforddiant ond nad yw'r cwrs wedi dechrau eto

113) Er mwyn cefnogi rhieni sy'n gwneud cais am y Cynnig o dan y meini prawf o fod mewn hyfforddiant neu addysg, gall awdurdodau lleol gymeradwyo cais cyn i riant fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Bydd llawer o rieni'n gwneud cais cyn gynted ag y byddant yn cael cynnig i astudio mewn sefydliad Addysg Bellach (AB) neu Addysg Uwch (AU), gan ddefnyddio eu gwahoddiad neu eu hysbysiad cofrestru. Wedi hynny, bydd angen i'r rhieni hyn ddarparu rhagor o dystiolaeth sy'n dangos eu bod wedi dechrau ar eu cwrs, a bydd y rhan fwyaf o sefydliadau AB ac AU yn gallu darparu cadarnhad o'u presenoldeb.

114) Pan fydd awdurdod lleol yn cymeradwyo cais ymlaen llaw ar gyfer rhiant sy'n dechrau ar hyfforddiant neu addysg, dylid rhoi'r cais mewn cyfnod esemptio dros dro o'r dyddiad y bydd y cwrs yn dechrau'n ffurfiol. Yna bydd angen i rieni ddarparu rhagor o dystiolaeth cyn dileu'r cyfnod esemptio dros dro.

## Rhieni sydd wedi darparu tystiolaeth o gontract neu lythyr yn cynnig cyflogaeth ond nad ydynt wedi dechrau cyflogaeth eto

115) I gefnogi rhieni sydd wedi darparu tystiolaeth o gontract neu lythyr yn cynnig cyflogaeth ond nad ydynt wedi dechrau eu swydd eto, gall awdurdodau lleol gymeradwyo cais cyn i'r rhiant fod yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Dylai awdurdodau lleol roi'r rhiant mewn cyfnod esemptio dros dro sy'n dechrau ar y diwrnod y disgwylir i'w gyflogaeth ddechrau. Yna bydd angen i rieni roi cadarnhad i'r awdurdod lleol bod eu cyflogaeth wedi dechrau fel rhan o'r broses hon.

116) Mae'r gofyniad i riant fod yn ymgymryd â rhyw fath o waith, bod yn hunangyflogedig, neu fod wedi cofrestru ar gwrs AU neu AB perthnasol yn parhau mewn perthynas â'r Cynnig.

117) Os yw rhiant a oedd yn gymwys i gael y Cynnig yn flaenorol wedi cael ei ddiswyddo, rhaid iddo ddarparu tystiolaeth o gymhwystra parhaus i'r awdurdod lleol, gan nad oes ganddo gontract gwaith na busnes mwyach. Yn yr un modd, os bydd cwrs AU neu AB yr oedd rhiant wedi'i gofrestru arno'n flaenorol yn peidio â chael ei ddarparu, nid yw bellach yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y Cynnig. Mewn achosion o'r fath, dylai'r awdurdod lleol ddechrau cyfnod esemptio dros dro o'r adeg y bydd ei amgylchiadau'n newid, hyd at

uchafswm o 4 wythnos yn ôl-weithredol, ac am uchafswm cyffredinol o 8 wythnos.

## Beth ddylai awdurdod lleol ei wneud pan ddaw Cyfnod Esemptio Dros Dro i ben

118) Pan fydd cyfnod esemptio dros dro rhiant yn dod i ben a'i fod yn peidio â bod yn gymwys mwyach, bydd angen iddo wneud cais am y Cynnig eto. Dylai awdurdodau lleol ailasesu cymhwystra'r rhiant fel cais newydd gan y gallai ei amgylchiadau fod wedi newid eto.

## Beth sy'n digwydd ar ôl i Gyfnod Esemptio Dros Dro ddod i ben

119) Er y bydd cyllid ar gyfer rhiant nad yw'n gallu cadarnhau ei gymhwystra parhaus o dan y Cynnig yn dod i ben yn dilyn cyfnod esemptio dros dro, efallai y bydd gan rieni gytundeb o hyd gyda'r lleoliad ar gyfer gofal plant a bydd angen iddo barhau i dalu am weddill unrhyw gontract sydd ar waith. Ni fydd lleoliadau'n gallu gwneud cais am gyllid drwy blatfform Cynnig Gofal Plant Cymru ar gyfer rhieni sydd â chyfnod esemptio dros dro sydd wedi dod i ben.

120) Dylai lleoliadau sicrhau eu hunain y bydd rhieni'n parhau i dalu am oriau y cytunwyd arnynt er nad ydynt bellach yn derbyn cymorth trwy'r Cynnig. Yn yr achosion hyn, gall lleoliadau godi eu cyfraddau arferol p'un a ydynt yn uwch neu'n is na'r taliadau a dderbyniwyd o dan y Cynnig.

# Adran 6 – Plant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt

Mae'r adran a ganlyn yn nodi'r ddarpariaeth sydd ar waith i alluogi plentyn ag anghenion cymorth ychwanegol i fanteisio ar elfen gofal plant y Cynnig.

Gweithdrefnau Gweithredu Safonol perthnasol neu ganllawiau ychwanegol i gefnogi'r adran hon:

- Cynnig Gofal Plant Cymru: Canllawiau Grant Cymorth Ychwanegol

## Grant Cymorth Ychwanegol

121) Mewn perthynas ag elfen gofal plant y Cynnig, ac er mwyn sicrhau bod elfen gofal plant y Cynnig yn gynhwysol i blant cymwys sydd angen cymorth ychwanegol, mae cymorth ar gael drwy ffrwd ariannu ar wahân o'r enw Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru.

122) Mae cyllid i blant gael gafael ar elfen addysg y Cynnig eisoes yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol, sydd wedi sefydlu systemau ar gyfer asesu'r angen a dyrannu adnoddau.

123) Dylai awdurdodau lleol gyfeirio at ganllawiau Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru a gyhoeddir ar-lein.

124) Dylid cynnal asesiadau o natur y cymorth sydd ei angen ar blant yn unol â'r prosesau arferol ar gyfer pob awdurdod lleol.

125) O dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, bydd plant sydd ag anghenion meddygol neu ofal iechyd dwys yn cael eu hariannu drwy gyllideb gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol. Felly, ni fydd angen cyllid ychwanegol ar y plant hynny o dan y Cynnig.

## Adran 7 – Pa ddarparwyr a all gynnig darpariaeth o dan y Cynnig

Mae'r adran a ganlyn yn nodi pa ddarparwyr sy'n gallu darparu oriau gofal plant a ariennir o dan y Cynnig.

Gweithdrefnau Gweithredu Safonol perthnasol neu ganllawiau ychwanegol i gefnogi'r adran hon:

- Gofal plant i blant 3 a 4 oed: canllawiau polisi ar gyfer darparwyr

### Mathau o ddarparwyr

126) Gall elfen gofal plant y Cynnig gael ei darparu gan unrhyw leoliad gofal plant unrhyw le yng Nghymru neu yn yr ardaloedd ar y ffin, cyn belled â'u bod wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) neu Ofsted yn Lloegr. Mae hyn yn cynnwys clybiau brecwast, clybiau prynhawn a chlybiau gwyliau. I'r perwyl hwn, mae'n ofynnol iddynt fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant, byddant yn gyfarwydd â Fframwaith Ansawdd AGGCC ac yn cael eu harolygu'n unol â hynny. Bydd darparwyr yn Lloegr yn cael eu harolygu gan Ofsted ac mae'n ofynnol iddynt fodloni eu safonau. Ni all darparwyr gofal plant nad ydynt wedi'u cofrestru gyda AGC neu Ofsted ddarparu'r Cynnig.

127) Gall gwarchodwyr plant sy'n gofrestredig ddarparu'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer plentyn sydd hefyd yn berthynas, ar yr amod bod y gofal yn cael ei ddarparu y tu allan i gartref y plentyn, ac nad oes gan y darparwr gofal plant gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

128) Nid yw nanis yng Nghymru yn cael eu rheoleiddio i'r un graddau â darparwyr gofal plant cofrestredig, ac felly ni ellir eu hariannu i ddarparu'r Cynnig.

129) Bydd disgwyl i ddarparwyr gofal plant sy'n dymuno bod yn rhan o'r Cynnig wneud y canlynol:

- cofrestru ar wasanaeth digidol Cynnig Gofal Plant cenedlaethol Cymru a chytuno i'r Telerau a'r Amodau.
- peidio â chodi unrhyw ffioedd fesul awr ychwanegol ar rieni am y plant 3 a 4 oed sy'n mynychu dan delerau'r Cynnig. Nodir hyn yn y canllawiau i ddarparwyr o dan 'Cyfraddau atodol pan fydd eich cyfradd arferol yn uwch'.
- dilyn y canllawiau ar gyfer codi tâl am elfennau ychwanegol wrth godi tâl ar rieni sy'n manteisio ar y Cynnig am gostau bwyd, teithio ac unrhyw weithgareddau oddi ar y safle.
- sicrhau, hyd y gellir, bod gofal plant yn cael ei ddarparu'n hyblyg er mwyn helpu i ddiwallu anghenion rhieni sy'n gymwys, a
- hysbysu'r awdurdod lleol os bydd newid mewn amgylchiadau, megis os bydd rhiant yn methu'n gyson â hawlio'r oriau a ariennir drwy'r Cynnig.

130) Bydd darparwyr gofal plant yn cael eu hannog i wneud y canlynol hefyd:

- rhoi darpariaeth ac adnoddau dwyieithog neu Gymraeg, lle bo’n bosibl; a
- rhoi cymorth i blant y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, lle bo’n bosibl.

131) Dylai awdurdodau lleol gefnogi darparwyr gofal plant gyda’r egwyddorion hyn a’u rhwymedigaethau a nodir yn Nhelerau ac Amodau Cynnig Gofal Plant Cymru ar gyfer darparwyr.

132) O dan y Cynnig gall plentyn ddefnyddio uchafswm o ddau leoliad gofal plant cofrestredig, yn ogystal â’u lleoliad addysg feithrin.

## Darpariaeth drawsffiniol

133) Bydd rhieni cymwys yn gallu manteisio ar eu gofal plant a ariennir o dan y Cynnig mewn unrhyw leoliad gofal plant cofrestredig yn Lloegr, cyn belled â bod y lleoliad wedi’i gofrestru a’i reoleiddio gan Ofsted.

134) Nid yw rhieni sy’n byw yn Lloegr yn gymwys i gael y Cynnig yng Nghymru. Bydd angen iddynt drafod â’u hawdurdod lleol yn Lloegr p’un a allant ddefnyddio’r Cynnig Gofal Plant yn Lloegr i dalu am ofal plant ac addysg feithrin mewn lleoliad yng Nghymru.

# Adran 8 – Y gyfradd a delir i ddarparwyr sy'n darparu'r Cynnig

Mae'r adran a ganlyn yn nodi'r gyfradd fesul awr a delir am ofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru a delir drwy'r Cynnig, yn ogystal â chanllawiau sy'n ymwneud â thaliadau darparwyr i rieni.

Gweithdrefnau Gweithredu Safonol perthnasol neu ganllawiau ychwanegol i gefnogi'r adran hon:

- Darparwyr yn rheoli cytundebau ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru
- Rhieni yn rheoli cytundebau Cynnig Gofal Plant Cymru ar-lein

## Cyfradd tâl fesul awr ar gyfer gofal plant

135) O 6 Ebrill 2026 mae'r gyfradd genedlaethol fesul awr a delir gan Lywodraeth Cymru i ddarparwyr gofal plant sy'n darparu gofal plant o dan y Cynnig wedi cynyddu o £6.40 yr awr i £6.67 yr awr.

136) Mae'r gyfradd genedlaethol o £6.67 yn cael ei thalu gan Lywodraeth Cymru i ddarparwyr gofal plant am ddarpariaeth ar wyliau banc, hyd yn oed os mai polisi'r darparwr yw codi cyfradd uwch.

137) Gall darparwyr gofal plant hawlio ar gyfer sesiynau hanner awr ar gyfradd o £3.34.

138) Dylid talgrynnu unrhyw amrywiad i'r gyfradd fesul awr i'r hanner awr agosaf. Felly, dylid talgrynnu sesiwn sy'n cynnwys chwarter awr i'r hanner awr agosaf. Mewn achosion o'r fath, rhaid ystyried cyfanswm wythnosol yr oriau a ddefnyddir, ee os yw rhiant yn defnyddio darpariaeth sydd ar agor am 2 awr 15 munud yn unig y dydd, gellir talu'r darparwr hyd at yr hanner awr agosaf, ee 2 awr 30 munud. Fodd bynnag, pe bai'r ddarpariaeth hon yn cael ei defnyddio am fwy nag un diwrnod yr wythnos, dylid ystyried cyfanswm yr oriau a ddefnyddir dros gyfnod o 1 wythnos. Byddai'r cyfanswm a delir i'r darparwr hwnnw i'r hanner awr agosaf o'r cyfanswm hwnnw am yr wythnos honno heb fod yn fwy na'r uchafswm wythnosol o oriau gofal plant, hy yn ystod y tymor ac wythnosau gwyliau.

139) Mae'r gyfradd genedlaethol fesul awr yn talu dim ond am ofal plant ac nid yw'n cynnwys unrhyw daliadau a ganiateir am fwyd, cludiant a gweithgareddau eraill, fel gweithgareddau oddi ar y safle, er enghraifft teithiau dydd.

## Codi ffioedd ychwanegol

140) Pe bai darparwr gofal plant fel arfer yn codi mwy na £6.67 yr awr am ofal plant, ni chaniateir i'r darparwr hwnnw godi swm ychwanegol fesul awr ar rieni ar ben y gyfradd dan y Cynnig. Dylai darparwyr y canfyddir eu bod yn gweithredu'n groes i'r deler hon gael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru a fydd yn asesu ac yn

cymryd camau o bosibl. Gallai hyn gynnwys tynnu darparwr o restr o ddarparwyr y Cynnig.

141) Ni ddylai lleoliadau ofyn i riant sy'n derbyn y Cynnig dalu ffi y dangosir ei bod yn ychwanegiad uniongyrchol at y gyfradd fesul awr a delir i leoliadau gan Lywodraeth Cymru.

142) Nid yw'n ofynnol i ddarparwyr godi cyfradd fesul awr y Cynnig ar gyfer darpariaeth nad yw'n cael ei darparu o dan y Cynnig.

## Codi tâl am elfennau ychwanegol

143) Dim ond am yr elfennau ychwanegol a amlinellir isod y caniateir i'r lleoliadau hynny sydd â rhieni sy'n defnyddio eu safleoedd i gael mynediad at ddarpariaeth y Cynnig godi tâl amdanynt. Mae'n ofynnol i leoliadau helpu pob rhiant i ddeall y contractau y gall y rhieni hynny ymrwymo iddynt gyda nhw, gan gynnwys anfonebau a thaliadau os oes taliadau ychwanegol yn gymwys. Ni ddylai lleoliadau godi unrhyw ffioedd ychwanegol ar rieni sy'n defnyddio'r Cynnig ar gyfer unrhyw elfennau uwchlaw y costau gofal plant eu hunain, os nad ydynt hefyd yn codi ffioedd ar gyfer yr elfennau hynny ar rieni nad ydynt yn defnyddio'r Cynnig. Er enghraifft, os nad yw darparwr gofal plant yn codi ffi ar rieni am fwyd fel eitem ar wahân, yna ni allant godi ffi ar rieni sy'n defnyddio'r Cynnig am fwyd ar wahân.

## Elfen codi tâl - bwyd:

144) Caniateir i leoliadau godi tâl ar rieni am fwyd a diod. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ddarparwyr gofal plant ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phennu ffioedd ychwanegol pan fyddant yn codi ar rieni am elfennau ychwanegol uwchlaw y gofal am y plentyn.

145) Wrth fanteisio ar y Cynnig, ni ddylai rhieni, fel amod o bresenoldeb eu plentyn, orfod derbyn a thalu am fwyd gan y darparwr a gallant ddewis darparu pecyn bwyd eu hunain, os bydd y lleoliad fel arfer yn caniatáu hynny.

146) Y canllawiau mewn perthynas â chodi tâl am fwyd mewn sesiwn gofal dydd llawn (tua 10 awr) yw o 6 Ebrill 2026 na ddylid codi mwy na £11.25 y dydd ar rieni am fwyd. Byddai tâl o tua £11.25 am sesiwn gofal dydd llawn yn cynnwys tri phryd am £3.13 y pryd a 2 fyrbryd am dâl o 94c y byrbryd.

147) Y canllawiau mewn perthynas â chodi tâl am fwyd mewn sesiwn hanner diwrnod (tua 5.5 awr) yw na ddylid codi mwy na £7.20 ar rieni. Byddai'r ffigur hwn yn ei gwneud yn bosibl codi ar blentyn am ddau bryd yn ôl cyfradd o £3.13 y pryd ac am fyrbryd yn ôl cyfradd o 94c y byrbryd.

148) Ar gyfer gofal sesiynol lle na ddarperir pryd ond lle mae plant yn cael byrbryd, y canllaw yw na ddylid codi mwy na 94c y dydd ar rieni am ddarparu byrbryd.

## Elfen codi tâl - cludiant:

149) Caniateir i ddarparwyr gofal plant godi ar rieni am gludiant sydd â chostau cysylltiedig.

150) Nid Llywodraeth Cymru sy'n pennu ffioedd am drafnidiaeth. Cydnabyddir y bydd costau cludiant yn amrywio yn ôl y lleoliad, y math o ddarparwr gofal plant, y math o gludiant sy'n cael ei ddarparu a'r costau sy'n gysylltiedig â staffio a chynnal cerbydau cludiant i safon ddiogel. Mater i'r darparwr yw penderfynu sut maent yn pennu eu cyfradd ar gyfer cludiant.

151) Dylid gosod cyfraddau cludiant ar gyfradd resymol. Rhaid i leoliadau hysbysu rhieni am gostau cludiant y gallai fod angen iddynt eu talu er mwyn rhoi eglurder a sicrwydd i rieni.

152) Ni ddylid codi mwy o dâl am gludiant ar rieni sy'n defnyddio'r Cynnig na'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r Cynnig. Dylai rhieni gysylltu â'r lleoliad o'u dewis os nad ydynt yn credu bod costau cludiant yn rhesymol. Dylai lleoliadau weithio gydag awdurdodau lleol, sy'n cadw'r hawl i fonitro costau cludiant a godir ar rieni sy'n defnyddio'r Cynnig, er mwyn sicrhau bod unrhyw gostau yn rhesymol.

153) Ystyr rhesymol, mewn perthynas â'r elfen hon o godi tâl, yw gallu rhedeg a thalu costau rhedeg cludiant yn ddiogel, yn gynaliadwy ac nid cyfrannu at gostau gweithredu ehangach y darparwr.

## Elfen codi tâl – Gweithgareddau oddi ar y safle:

154) Caniateir i leoliadau godi ar rieni am weithgareddau oddi ar y safle, sydd â chostau cysylltiedig.

155) Rhaid i rieni sy'n defnyddio'r Cynnig allu dewis peidio â chaniatáu i'w plentyn gymryd rhan mewn gweithgareddau y tu allan i'r lleoliad ac ni ddylai hynny fod yn amod ar ddefnyddio'r lleoliad gofal plant. Dylai gweithgareddau fel hynny fod yn eithriadol ac yn achlysurol yn hytrach na bod yn weithgaredd rheolaidd yn y lleoliad.

156) Nid yw Llywodraeth Cymru yn pennu ffioedd ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle. Bydd cyfraddau ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle sy'n ysgwyddo costau hefyd yn amrywio yn ôl natur y gweithgareddau.

157) Ni ddylai lleoliadau godi tâl ychwanegol ar rieni sy'n defnyddio'r Cynnig am weithgareddau arferol yn eu lleoliad. Gweithgareddau arferol ar y safle yw gweithgareddau sy'n rhai arferol ac yn cael eu hystyried yn fusnes fel arfer.

158) Ni ddylai lleoliadau godi unrhyw ffioedd ychwanegol ar rieni sy'n defnyddio'r Cynnig am unrhyw elfennau sydd uwchlaw y costau gofal plant eu hunain, os nad ydynt hefyd yn codi ffioedd am yr elfennau hynny ar rieni nad ydynt yn defnyddio'r Cynnig.

159) Ni ellir defnyddio'r Cynnig i dalu am gostau gofal plant anuniongyrchol fel ffi

gwyliau neu ffi weinyddol neu ffi gadw ymlaen llaw. Os yw'r rhiant yn dewis defnyddio darparwr sy'n codi'r ffioedd hyn, mater i'r rhiant fydd hyn a'r rhiant sy'n talu'r gost.

160) Dylai rhieni nad ydynt yn dymuno defnyddio lleoliad oherwydd elfennau ychwanegol y codir tâl amdanynt gysylltu â'u Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i ganfod pa leoliadau gofal plant eraill sydd ar gael iddynt eu defnyddio.

## Achosion o beidio â chydymffurfio â chanllawiau codi tâl

161) Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i fonitro elfennau ychwanegol y codir tâl amdanynt sy'n gymwys i rieni a gwerthuso a ydynt yn rhesymol.

162) Mae lleoliadau sy'n darparu'r Cynnig yn gwneud hawliadau ar-lein am oriau a ddarperir, gan ddefnyddio gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant. Pan fydd lleoliad yn cofrestru gyda'r gwasanaeth digidol cenedlaethol, mae'n cytuno i gyfres o delerau ac amodau. Mae cytuno i'r telerau a'r amodau hyn yn golygu bod lleoliadau'n parchu darpariaeth y Cynnig Gofal Plant ac yn glynu wrth ganllawiau a gyhoeddwyd ar-lein ar gyfer lleoliadau.

## Torri Canllawiau – Codi ffioedd atodol ac elfennau ychwanegol y gellir codi tâl amdanynt

163) Os yw awdurdod lleol yn penderfynu bod lleoliad yn torri telerau ac amodau a chanllawiau yn fwriadol neu'n barhaus drwy godi ffioedd atodol yn uniongyrchol neu'n codi tâl am elfennau ychwanegol yn barhaus a/neu'n fwriadol y tu allan i'r canllawiau hyn, dylai gysylltu â'r lleoliad i sefydlu'r ffeithiau a gweithio gyda'r lleoliad i'w atgoffa o'i rwymedigaethau wrth ddarparu'r Cynnig. Os bydd y lleoliad, ar ôl gweithio gyda'r awdurdod lleol, yn parhau i dorri'r telerau a'r amodau a'r canllawiau yn barhaus, dylid cyfeirio'r mater hwn at Lywodraeth Cymru.

164) Yn yr achosion hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r awdurdod lleol ac yn ystyried pa gamau y dylid eu cymryd.

165) Mewn achosion o'r fath o ddiffyg cydymffurfio, mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i atal unrhyw leoliadau sy'n torri'r telerau a'r amodau a'r canllawiau hyn yn fwriadol neu'n barhaus rhag darparu'r Cynnig.

## Cyllid ar gyfer darpariaeth addysg feithrin

166) Mae'r gyfradd ar gyfer darpariaeth addysg feithrin yn gyson â chyfradd y Cynnig, er bod y drefn gyllido ar gyfer y ddwy yn wahanol. Mewn lleoliadau sy'n cynnig darpariaeth addysg feithrin, mae'n bwysig eu bod mor glir â phosibl am ba oriau o ran presenoldeb y plentyn sy'n cael eu talu amdanynt o dan bob elfen o'r Cynnig.

167) Os bydd darparwr gofal plant yn cael ei ariannu am oriau darpariaeth addysg

feithrin, ni all godi ffi hefyd am ddarparu elfen gofal plant y Cynnig am yr un oriau. Byddai hynny'n cael ei ystyried yn godi ffioedd dwbl, a byddai'n arwain at gamau i adennill y costau.

## Hawlio am oriau a drefnwyd ond na ddefnyddiwyd

Dylid darllen yr adran hon ar y cyd â'r canllawiau ar reoli cytundebau. Mae dolen iddynt ar ddechrau'r adran hon.

168) Os trefnwyd bod plentyn i fynychu lleoliad gofal plant ond nad yw'n mynychu oherwydd salwch, gellir defnyddio cyllid o dan y Cynnig i dalu am yr oriau a drefnwyd.

169) Os trefnwyd bod plentyn i fynychu lleoliad gofal plant ond nad yw'n mynychu oherwydd ei fod i ffwrdd ar wyliau, gellir defnyddio cyllid o dan y Cynnig i dalu am yr oriau a drefnwyd.

170) Os trefnwyd bod plentyn i fynychu lleoliad gofal plant ond nad yw'n gallu mynychu oherwydd bod y lleoliad wedi cau oherwydd ei salwch ei hun, neu salwch ei staff, gellir defnyddio cyllid o dan y Cynnig i dalu am yr oriau a drefnwyd.

171) Os trefnwyd bod plentyn i fynd at warchodwr plant ond nad yw'n gallu mynd oherwydd bod y gwarchodwr plant yn gorfod mynd i'r llys, ni ddylid defnyddio cyllid o dan y Cynnig i dalu am yr oriau a drefnwyd. Yn hytrach, dylai'r gwarchodwr plant ystyried hawlio am yr enillion a gollwyd (o fewn terfynau penodol) o ganlyniad i fynd i wasanaeth rheithgor neu fynd i'r llys fel tyst.

172) Dylai awdurdodau lleol gymharu'r oriau o ofal plant a drefnir â'r oriau o ofal plant a ddefnyddir. Os yw'r wybodaeth hon yn dangos nad yw plentyn yn defnyddio'r oriau a drefnwyd yn rheolaidd, dylid trafod hyn gyda'r rhieni a/neu'r lleoliad gofal plant. Lle nad oes angen yr oriau, ni ddylid eu hariannu mwyach. Os yw rhiant yn trefnu oriau diangen dro ar ôl tro, efallai y bydd yn cael ei dynnu o'r Cynnig.

173) Ni chaniateir i rieni drefnu oriau heb fod ganddynt fwriad i'w defnyddio. Fodd bynnag, mae'r Cynnig yn caniatáu i absenoldebau tymor byr (hyd at bedair wythnos) gael eu hariannu neu lle mae'n ymwneud â phatrymau shifftiau rhieni. Efallai y caniateir tarfu ar y patrwm arferol am gyfnod hirach, ond rhaid cyfeirio'r achosion hyn at yr Awdurdod Gweithredu i'w trafod gyda Llywodraeth Cymru, a rhaid bod wedi trefnu oriau penodol eisoes. Mae'n bosibl y bydd gofyn i'r rhiant neu'r darparwr roi tystiolaeth.

174) Lle bydd rhieni yn trefnu oriau gyda'r bwriad o'u defnyddio, ond na allant wneud hynny am reswm cyfreithlon, megis salwch neu hunanynysu, caiff darparwyr hawlio cyllid y Cynnig am hyd at bedair wythnos. Dylid ystyried unrhyw estyniad i'r cyfnod hwn yn achos o amgylchiadau eithriadol a ganiateir gan Lywodraeth Cymru, a bydd angen darparu tystiolaeth i gefnogi'r hawliad.

## Adran 9 – Rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol

Mae'r adran ganlynol yn nodi'r model sy'n sail i weithredu'r Cynnig a rolau a chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol.

Gweithdrefnau Gweithredu Safonol perthnasol neu ganllawiau ychwanegol i gefnogi'r adran hon:

- Pecyn Cymorth Cyfryngau Cyfathrebu Llywodraeth Cymru - Cynnig Gofal Plant Cymru

### Y Model Gweithredu

175) O dan y model gweithredu ar gyfer y Cynnig mae dau gategori o awdurdod lleol:

- **Awdurdodau Gweithredu** - maent yn gyfrifol am hyrwyddo'r Cynnig i rieni a lleoliadau gofal plant yn eu hardaloedd, rhoi hyfforddiant i'w Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ar sut i ddelio ag ymholiadau ynghylch y Cynnig, prosesu ceisiadau gan rieni, penderfynu ar gymhwystra a rhoi gwybod iddynt am y canlyniad. Maent hefyd yn cyflawni tasgau awdurdodau ymgysylltu o fewn eu hardal eu hunain.

- **Awdurdodau Ymgysylltu -** maent yn gyfrifol am hyrwyddo'r Cynnig i rieni a lleoliadau gofal plant yn eu hardaloedd, rhoi hyfforddiant i'w Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ar sut i ddelio ag ymholiadau ynghylch y Cynnig, a darparu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ar yr awdurdod gweithredu i brosesu ceisiadau a gweinyddu'r Cynnig ar eu rhan.

| **Awdurdod Gweithredu** | **Awdurdod Ymgysylltu** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | Torfaen |
| Caerffili | |
| Caerdydd | |
| Ceredigion | Sir Gaerfyrddin<br>Sir Benfro<br>Powys |
| Sir y Fflint | Sir Ddinbych<br>Wrecsam |
| Gwynedd | Ynys Môn<br>Conwy |
| Castell-nedd Port Talbot | |
| Casnewydd | Sir Fynwy<br>Bro Morgannwg |
| Rhondda Cynon Taf | Pen-y-bont ar Ogwr<br>Merthyr Tudful |
| Abertawe | |

Mae gwybodaeth fanylach am rolau a chyfrifoldebau Awdurdodau Gweithredu ac Ymgysylltu wedi'u nodi yn llythyrau dyfarnu'r grant gweinyddu.

## Cyfathrebu a Brandio

176) Mae Pecyn Cymorth Cyfryngau Cyfathrebu Llywodraeth Cymru gyda chanllawiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gadw atynt. Darperir dolen ar ddechrau'r adran hon.

177) Disgwylir i bob awdurdod lleol ddatblygu cynllun cyfathrebu blynyddol gan ddefnyddio'r templed a ddarperir gyda'r llythyrau dyfarnu grant. Disgwylir i awdurdodau lleol hyrwyddo'r Cynnig ymhlith lleoliadau gofal plant a rhieni a allai fod yn gymwys. Gallai hynny gynnwys digwyddiadau mewn lleoliadau a deunyddiau hyrwyddo. Ni ddylid gwario'r gyllideb ar nwyddau hyrwyddo fel deunydd ysgrifennu, bagiau, dillad neu eitemau tebyg gan ei bod yn anodd iawn mesur effaith yr eitemau hyn ar nifer y ceisiadau ar gyfer y Cynnig. Gall rhai cynhyrchion fod yn niweidiol i'r amgylchedd hefyd.

178) Disgwylir i bob awdurdod lleol fynd ati'n weithredol i hyrwyddo'r Cynnig ac annog rhieni a phlant difreintiedig sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i'w hawlio. Dylid gwneud defnydd llawn o gysylltiadau â phartneriaid sydd mewn cysylltiad â rhieni perthnasol, megis ysgolion, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, Canolfan Byd Gwaith, yn ogystal â chyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus trwy bapurau newydd lleol a chyhoeddiadau eraill.

179) Mae eisoes yn ofynnol dan Ddeddf Gofal Plant 2006 i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni a darpar rieni ynghylch y ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal. O ganlyniad, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r Cynnig, ymateb i unrhyw gwestiynau am y Cynnig a helpu rhieni cymwys, trwy eu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lle y bo'n berthnasol a llinell gymorth genedlaethol y Cynnig Gofal Plant, i ymgeisio am y Cynnig a dod o hyd i ofal plant addas.

180) Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid drwy'r Grant Gweinyddu'r Cynnig Gofal Plant i alluogi awdurdodau lleol i ddarparu a hyrwyddo'r Cynnig. Mae costau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi ac argraffu deunyddiau hyrwyddo yn gostau cymwys o dan y grant, a byddai Llywodraeth Cymru'n disgwyl i gostau o'r fath gael eu talu o'r dyfarniad grant.

181) Dylai awdurdodau lleol roi cyhoeddusrwydd i'r Cynnig yn lleol drwy eu cyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl. Dylid defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn unol â chanllawiau Pecyn Cymorth Cyfryngau Cyfathrebu Llywodraeth Cymru o ran cadw at ganllawiau brandio Llywodraeth Cymru, ac yn unol â pholisi cyfryngau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Dylai logo Llywodraeth Cymru fod yn amlwg ar bob eitem hyrwyddo.

182) Rhaid gwerthuso holl weithgarwch ymgyrchu awdurdodau lleol sy'n cynnwys hyrwyddo cymdeithasol, cyswllt wyneb yn wyneb â rhieni, taflenni a phosteri a

hysbysebu oddi allan i’r cartref gan ddefnyddio’r templed a ddarperir fel rhan o’r llythyrau dyfarnu grant. Dylai awdurdodau lleol gyfeirio at y llythyrau dyfarnu grant gweinyddu am dempledi perthnasol a dyddiadau allweddol.

## Adran 10 – Cyllid ar gyfer y Cynnig Gofal Plant

Mae'r adran hon yn disgrifio'r ddwy ffrwd cyllid grant ar wahân y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu i awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Cynnig.

Gweithdrefnau Gweithredu Safonol perthnasol neu ganllawiau ychwanegol i gefnogi'r adran hon:

- Cynnig Gofal Plant Cymru: Grant Cymorth Ychwanegol

Mae cyllid craidd ar gyfer oriau'r Cynnig yn cael ei dalu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i leoliadau gofal plant

### Grant Gweinyddu'r Cynnig Gofal Plant

183) Telir y grant hwn i awdurdodau lleol er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflwyno a darparu cymorth llinell gyntaf ar gyfer y Cynnig i Gymru. Caiff telerau ac amodau'r grant hwn eu nodi mewn llythyrau dyfarnu grant.

### Y Grant Cymorth Ychwanegol

184) Caiff y Grant Cymorth Ychwanegol (Adran 6) ei dalu'n uniongyrchol i awdurdodau lleol sy'n gallu defnyddio'r cyllid hwn er mwyn helpu i sicrhau bod plant cymwys sydd ag anghenion ychwanegol yn gallu manteisio ar elfen gofal plant y Cynnig yn yr un ffordd â phlant cymwys eraill. Gellir dod o hyd i ddolen i ganllawiau penodol ar gyfer awdurdodau lleol uchod.

## Adran 11 – Darparu'r Cynnig – awdurdodau lleol yn cefnogi rhieni

Mae'r adran hon yn nodi sut gall awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau i gefnogi rhieni.

Gweithdrefnau Gweithredu Safonol perthnasol neu ganllawiau ychwanegol i gefnogi'r adran hon:

- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer awdurdodau lleol: Ceisiadau gan Rieni
- Cynnig Gofal Plant Cymru: gwasanaeth digidol cenedlaethol strategaeth ddigidol â chymorth
- Gweithdrefn gwyno Llywodraeth Cymru

### Prosesau rhieni

185) Mae'r trefniadau cymorth i helpu pobl nad ydynt yn gallu defnyddio gwasanaeth digidol y Cynnig Gofal Plant heb gymorth wedi'u nodi yn y Cynnig Gofal Plant Cymru: gwasanaeth digidol cenedlaethol strategaeth ddigidol â chymorth.

186) Mae'r strategaeth hon yn nodi'r trefniadau cymorth sydd ar waith i gynorthwyo pobl i ddefnyddio gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant lle nad ydynt yn gallu gwneud hynny heb gymorth. Datblygwyd gwasanaeth digidol cenedlaethol y Cynnig Gofal Plant gydag egwyddorion Strategaeth Ddigidol Cymru yn greiddiol iddo.

187) Dylai rhieni gwblhau eu ceisiadau eu hunain ar gyfer y Cynnig, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Ni ddylai rhieni ofyn i awdurdodau lleol na lleoliadau gwblhau eu cais ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol. Os yw'r awdurdod lleol o'r farn bod risg uchel na fydd rhieni yn cael gofal plant wedi'i ariannu gan y Llywodraeth os na chânt gymorth o'r fath, yna gellir rhoi cymorth. Yn yr amgylchiadau hyn, gall lleoliad gynorthwyo hefyd os yw'n gofyn caniatâd gan yr awdurdod lleol.

188) O dan yr amgylchiadau hyn, dylai'r awdurdod lleol fodloni ei hun bod mesurau priodol ar waith i liniaru achosion posibl o dwyll a thor diogelwch data. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol:

- Dylai'r awdurdod lleol fodloni ei hun fod camau digonol ar waith gan y lleoliad o ran ei ddyletswyddau mewn perthynas ag ymdrin â gwybodaeth bersonol (GDPR).

- Dylai'r awdurdod lleol anfon hysbysiad o gymhwystra yn uniongyrchol at y rhiant.

### Gwirio Cymhwystra

189) Rhaid i awdurdodau gweithredu ddefnyddio'r data a'r dystiolaeth ddogfennol a

ddarperir ar y platfform digidol i gadarnhau bod ymgeisydd yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Bydd rhieni fel ymgeiswyr yn cadarnhau ac yn dilysu bod y wybodaeth a'r dystiolaeth ddogfennol sydd wedi'i lanlwytho i gefnogi eu cais yn gywir.

190) Disgwylir y bydd pob cais yn cael ei ategu gan dystiolaeth ddogfennol o gymhwystra. Mae hyn wedi'i nodi ar-lein ar gyfer rhieni a gallai gynnwys fersiwn lawn o dystysgrif geni plentyn. Os nad oes gan riant y fersiwn lawn o'r dystysgrif geni neu gopi ohoni, bydd yr awdurdod lleol yn gofyn am:

- Fersiwn fer o'r dystysgrif geni a
- phrawf o gyfrifoldeb rhiant, fel:
  - Llythyr Budd-dal Plant
  - llythyr gan adran derbyn meithrin eu hawdurdod lleol neu unrhyw lythyr ffurfiol arall sy'n darparu tystiolaeth bod ganddynt gyfrifoldeb dros y plentyn.
  - cofnod meddygol neu lyfr coch y plentyn
  - gohebiaeth wedi'i chyfeirio atynt ar ran y plentyn gan weithiwr iechyd proffesiynol arall, ee meddyg teulu/ysbyty/deintydd;

Os yw enw'r plentyn wedi cael ei newid yn swyddogol, bydd angen tystiolaeth.

191) Dylai rhieni maeth neu rieni mabwysiadu neu warcheidwaid cyfreithiol allu dangos cyfrifoldeb rhiant drwy ohebiaeth ysgrifenedig gan awdurdod perthnasol neu ddogfen gyfreithiol sy'n cadarnhau mai nhw sy'n gyfrifol am y plentyn.

## Prawf o gyfeiriad

192) Tystiolaeth o gyfeiriad, wedi'i ddyddio o fewn y 3 mis diwethaf:

- bil cyfleustodau diweddaraf, fel bil trydan, nwy neu ddŵr (ni chaniateir biliau ffôn symudol, cerdyn credyd a band eang, na thrwyddedau teledu ychwaith)
- datganiad diweddaraf y dreth gyngor
- datganiad banc diweddaraf

Os nad oes gan riant unrhyw un o'r rhain, gall awdurdod lleol dderbyn copi o gontract prynu tŷ neu gytundeb tenantiaeth y rhieni.

## Prawf o gyflogaeth ac incwm

193) I brofi cyflogaeth ac incwm, mae'n ofynnol i riant ddarparu'r 3 slip cyflog misol diweddaraf, neu gopi o gontract cyflogaeth, ar gyfer rhiant 1 a rhiant 2.

## Pan fo rhiant ar absenoldeb mabwysiadu neu os yw'n ofalwr maeth

194) Bydd angen i riant gadarnhau gyda'r awdurdod lleol bod mynychu gofal plant wedi'i gytuno yng nghynllun gofal y plentyn. Gall awdurdodau lleol sy'n asesu cais gysylltu â'r adran gwasanaethau cymdeithasol perthnasol i gael cadarnhad.

## Hunangyflogedig (gan gynnwys gofal maeth)

195) Os yw rhiant neu bartner yn hunangyflogedig (gan gynnwys gofal maeth), bydd angen iddo ddarparu un o’r canlynol:

- ffurflen SA302
- ffurflen dreth hunanasesu ddiweddaraf (gan gynnwys Cyfeirnod Treth Unigryw (UTR) a dyddiad cofrestru)

## Pan fo rhiant newydd adleoli

196) Mae angen ystyried hefyd sut gall ymgeiswyr sydd newydd ad-leoli ddarparu prawf o’u cyfeiriad, ee os nad ydynt wedi’u cofrestru ar gyfer y dreth gyngor eto.

## Pan fo rhiant newydd fynd yn hunangyflogedig

197) Byddai rhiant hunangyflogedig newydd yn cael ei eithrio o’r meini prawf enillion am y 12 mis cyntaf ar ôl sefydlu’r busnes. Ond dylid gofyn iddo ddarparu tystiolaeth bod y busnes hwnnw wedi’i sefydlu. Gallai hyn gynnwys y canlynol, er enghraifft:

- darparu tystiolaeth gan asiant (ee gallai ei gyfrifydd gadarnhau bod ei fusnes wedi’i sefydlu a’r incwm tebygol ar gyfer y flwyddyn dreth i ddod);
- darparu cynllun busnes, gan gynnwys tystiolaeth ei fod newydd gaffael gweithle/safle neu os yw ei fusnes wedi bod yn gweithredu ers digon o amser, copïau o anfonebau, dyfynbrisiau neu dendrau ag unrhyw wybodaeth adnabyddadwy bersonol wedi’i dileu; neu
- ei Gyfeirnod Treth Unigryw (UTR).

198) Os na fydd ffurflen dreth hunanasesu ar gael, gallai’r awdurdod lleol ofyn am gadarnhad gan gyfrifydd o’r incwm tebygol dros y flwyddyn dreth ddilynol. Gallai hwn fod yn gopi o’r cyfrifon diweddaraf. Lle na fydd yr enillion yn bodloni’r trothwy, byddai angen datganiad o’r incwm a ragwelir yn ystod y cyfnod hawl gan ei gyfrifydd/asiant.

## Pan fo rhiant mewn addysg neu hyfforddiant

199) Os yw rhiant mewn addysg neu hyfforddiant fel y’i diffinnir yn adran 4 o’r canllawiau hyn, dylai ddarparu tystiolaeth o gofrestru ffurfiol ar gwrs perthnasol.

200) Os yw rhiant wedi gwneud cais ac wedi cael cynnig lle ar gwrs perthnasol, ond nad yw wedi gallu cofrestru eto, byddai angen iddo ddarparu tystiolaeth o gynnig ffurfiol o le ar gwrs. Yn y ddau achos, dylai’r dystiolaeth nodi:

- dyddiad dechrau’r cwrs; a
- dyddiad gorffen y cwrs a/neu hyd y cwrs mewn wythnosau; ac
- enw’r sefydliad sy’n darparu’r cwrs.

201) Mewn achosion lle mae rhiant wedi gwneud cais ac wedi cael cynnig lle ar gwrs

perthnasol, ond nad yw wedi gallu cofrestru eto, dylai awdurdodau lleol lynu wrth y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer awdurdodau lleol: Ceisiadau gan Rieni.

## Croeswirio gwybodaeth a thystiolaeth ddogfennol

202) Rhaid i awdurdodau lleol groeswirio'r wybodaeth y mae'r ymgeisydd yn ei chofnodi a'i chyflwyno ar y platfform digidol yn ogystal ag unrhyw dystiolaeth ddogfennol sydd wedi'i lanlwytho i gefnogi ei gais, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson.

## Hysbysiadau i Rieni

203) Bydd rhieni a lleoliadau gofal plant yn derbyn hysbysiadau e-bost awtomatig gan y platfform digidol pan fydd angen iddynt weithredu. Mae hyn wedi'i nodi'n fanwl yn y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol.

## Rhieni yn Cadarnhau Cymhwystra Parhaus

204) Unwaith bob tymor, mae'n ofynnol i rieni gadarnhau eu bod yn parhau'n gymwys ac nad yw eu hamgylchiadau wedi newid. Mae hwn yn ofyniad gorfodol i unrhyw riant sy'n defnyddio'r Cynnig ac fe'i gelwir hefyd yn 'wiriad 100%'. Os yw rhiant yn cadarnhau nad oes newid, yna mae'r broses hon wedi'i chwblhau.

205) Bydd rhieni sy'n ail-gadarnhau eu cymhwystra yn destun hapwiriadau hap i ddilysu eu bod yn gymwys o hyd. Gofynnir i o leiaf 20% o'r rhieni hyn i ddarparu tystiolaeth wedi'i diweddaru o'u cymhwystra. Mae'r broses hon yn sicrhau bod y Cynnig yn bodloni disgwyliadau o ran atal twyll ar gyfer rheoli cyllid cyhoeddus. Ni ddylid ystyried bod rhieni sy'n destun yr hapwiriad yn anghymwys yn ystod y gwiriad ac ni ddylid eu rhoi mewn cyfnod esemptio dros dro yn ystod y broses hon. Fel y manylir yn y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol, os yw'r rhiant yn methu â darparu'r wybodaeth angenrheidiol, yna dylid nodi ar eu cais bod angen mwy o wybodaeth a'u rhoi mewn cyfnod esemptio dros dro ar yr un pryd.

206) Mewn rhai amgylchiadau, gall awdurdodau lleol addasu'r sampl o 20% drwy ychwanegu neu dynnu rhieni o'r gwiriad. Ni ddylid gwneud hyn oni bai fod cyfiawnhad busnes dros wneud hynny. Bydd angen i'r sampl o 20% ddarparu amrywiaeth o dystiolaeth i fodloni eu cymhwystra parhaus ar gyfer y Cynnig. Dylai awdurdodau lleol ymgynghori â'r Weithdrefn Weithredu Safonol berthnasol i gael arweiniad ychwanegol ar ddogfennaeth ofynnol. Mae'n bwysig nodi nad yw'r sampl o 20% yn sampl o rieni anghymwys. Mae'r rhieni hyn yn parhau i fod yn gymwys yn ystod y broses ailwirio, sydd fel arfer yn gyfnod gwirio o 4 wythnos a chyfnod esemptio dros dro i 8 wythnos os na fydd y rhiant yn ymateb o fewn y cyfnod o 4 wythnos.

## Adolygiadau Rhieni a Chwynion

207) Efallai y bydd rhiant neu leoliad gofal plant yn dymuno gofyn am adolygiad o benderfyniad neu wneud cwyn ynghylch gweinyddu Cynnig Gofal Plant Cymru.

208) Gan fod awdurdodau gweithredu yn prosesu ac yn penderfynu ar geisiadau

gan rieni, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod ganddynt brosesau ar waith ar gyfer y cyfrifoldebau y maent yn eu cyflawni gan gynnwys adolygu unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau ac ymdrin ag unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniad ynghylch cais am y Cynnig.

209) Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl i awdurdodau ymgysylltu gael prosesau ar waith ar gyfer adolygu cwynion gan leoliadau gofal plant. Dylai awdurdodau lleol gyfeirio at eu rolau a'u cyfrifoldebau fel y'u nodir yn eu llythyrau dyfarnu grantiau.

210) Nid yw'r canllawiau hyn yn cwmpasu cwynion ynghylch addysg feithrin. Bydd angen ymdrin â chwynion ynghylch yr elfen hon o'r Cynnig Gofal Plant drwy'r gweithdrefnau ar gyfer addysg feithrin.

211) Mewn achosion cymhleth, gall awdurdod lleol ofyn i Lywodraeth Cymru fel rheolydd data ddarparu tystiolaeth atodol i gefnogi'r broses o ystyried cwyn, drwy ffurflen gais digwyddiad. Mewn achos o'r fath, rhaid i awdurdod lleol sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheolau diogelu data a nodir gan Lywodraeth Cymru ar adeg gwneud y cais.

212) Dylid adolygu cwynion yn unol â pholisïau'r awdurdod lleol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn dylanwadu ar gwmpas polisïau cwynion ac apeliadau awdurdodau lleol.

213) Bydd angen i unrhyw broses ac unrhyw benderfyniad dilynol ddigwydd ar lefel swyddogion a rhaid iddynt beidio â chynnwys y cabinet nac unrhyw swyddog arall a etholwyd yn ddemocrataidd. Os bydd adolygiad neu gŵyn yn codi mewn unrhyw fater nad yw'n cael ei drafod yn y canllawiau hyn, rhaid i'r awdurdodau gweithredu gysylltu â Llywodraeth Cymru i gael cyngor polisi.

214) Os gwneir cais am adolygiad neu gŵyn sy'n herio'n uniongyrchol bolisi Cynnig Gofal Plant Cymru, ni chaniateir i awdurdodau lleol wneud unrhyw eithriadau i ganllawiau polisi.

215) Dylai awdurdodau lleol roi gwybod i Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau ymgysylltu sy'n bartner iddynt am ganlyniadau unrhyw gwynion y maent wedi'u hystyried a'r rhesymeg sy'n gysylltiedig â nhw. Rhaid i awdurdodau lleol anonymeiddio'r wybodaeth at ddibenion diogelu data a phreifatrwydd oni bai bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ymgymryd â chamau rheoli dyledion. Yn yr achos hwnnw, rhaid i'r awdurdod lleol gysylltu â Llywodraeth Cymru i weld pa wybodaeth sydd ei hangen.

216) Mae penderfyniad awdurdod lleol ar gŵyn yn cael ei ystyried yn derfynol gan Lywodraeth Cymru oni bai bod natur y gŵyn yn dod o dan amodau polisi cwynion Llywodraeth Cymru. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn ymyrryd pan fo proses gwyno awdurdod lleol wedi bod yn aflwyddiannus, a bod rhiant/lleoliad yn dymuno i'r achos gael ei uwchgyfeirio. Dylid uwchgyfeirio'r cais drwy'r broses briodol ar gyfer cwynion am awdurdod lleol, sef trwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Ni fydd y Cynnig Gofal Plant yn ymchwilio i weithdrefnau awdurdodau lleol.

217) Mae gweithdrefn gwyno Llywodraeth Cymru yn egluro ar ba sail y gellir codi cwyn. Ni ddylai awdurdodau lleol gyfeirio achosion at Lywodraeth Cymru os ydynt yn fodlon bod y gŵyn wedi'i datrys **neu** os nad yw'n bodloni'r meini prawf a nodir gan weithdrefn gwyno gorfforaethol Llywodraeth Cymru. Nid yw gweithdrefn gwyno gorfforaethol Llywodraeth Cymru yn ystyried cwynion ynghylch polisi. Fodd bynnag, efallai y bydd rhieni yn cael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru i roi adborth fel rhan o'r cylch adolygu polisi.

218) Gall cwynion a gadarnhawyd arwain at achos dros ystyried ôl-daliadau gan Lywodraeth Cymru. Mae'r senarios lle gallai cwyn gael ei chadarnhau gan awdurdod lleol ar ôl adolygiad yn cynnwys:

- bu oedi afresymol gan awdurdod lleol wrth benderfynu a yw rhiant yn gymwys i gael y Cynnig, **er gwaetha'r ffaith bod y rhiant wedi darparu'r holl ddogfennaeth angenrheidiol**, ac o ganlyniad, bu'n rhaid i'r rhiant dalu costau gofal plant cofrestredig yn ystod y cyfnod hwn; a/neu
- bu gwall technegol neu wall "proses" yn ystod cyfnod ymgeisio'r rhiant ac o ganlyniad, ni chofnodwyd y cais; a/neu
- mae rhiant yn ennill ei adolygiad/cwyn ac mae wedi talu costau gofal plant cofrestredig yn ystod y cyfnod hwnnw (mewn achosion o'r fath, bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy'r broses ôl-daliadau ar sail y gyfradd berthnasol fesul awr ar yr adeg yr ysgwyddwyd y costau).

219) Gwneir taliad dim ond pan fydd y rhiant wedi ysgwyddo costau gofal plant gyda lleoliad gofal plant cofrestredig a dylid gwneud cais i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo drwy'r broses ôl-daliadau.

# Adran 12 – Darparu'r Cynnig – Ôl-daliadau a Digwyddiadau Eithriadol

Mae'r adran ganlynol yn nodi canllawiau yn dilyn cytundebau i gymhwystra, ynghylch mynediad at ôl-daliadau, a darparu'r Cynnig yn ystod digwyddiadau eithriadol lle mae'n rhaid i leoliad gau oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth.

Gweithdrefnau Gweithredu Safonol perthnasol neu ganllawiau ychwanegol i gefnogi'r adran hon:

- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer Awdurdodau Lleol: Hawliadau am daliadau Cynnig Gofal Plant Cymru
- Cynnig Gofal Plant Cymru: Gweithdrefnau Gweithredu Safonol ar gyfer awdurdodau lleol – Cofrestru Lleoliad Gofal Plant
- Cynnig Gofal Plant Cymru: Polisi Rheoli Dyledion

## Ôl-daliadau a Thaliadau Digwyddiad Eithriadol

220) Mae Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i wneud penderfyniadau ar achosion am ôl-daliadau a thaliadau eithriadol.

## Ôl-daliadau

221) Mae ôl-daliad yn daliad a wneir i leoliad gofal plant lle mae amgylchiadau'n golygu na allant gael gafael ar y ddarpariaeth wedi'i hariannu llawn fel rhan o'u cytundeb gyda'r rhiant a chadw at y telerau a'r amodau wrth ddarparu'r Cynnig.

222) Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw hawliadau y tu allan i'r trefniadau arferol, gan gynnwys defnyddio ôl-daliadau i gywiro camgymeriadau rhiant neu leoliad wrth wneud hawliadau.

223) Dylai awdurdodau lleol wneud penderfyniad fesul achos cyn ceisio cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ôl-daliadau drwy Awdurdodau Gweithredu. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ceisiadau am ôl-daliadau yn yr amgylchiadau canlynol:

- byddai rhiant yn gymwys i gael cyllid ond nid yw wedi cael cyllid am reswm dilys.
- mae lleoliad wedi gwneud camgymeriad yn ei daflen amser ac nid yw wedi gallu hawlio'r hawliad llawn i gyllid.
- mae awdurdod lleol yn cadarnhau cwyn ac o ganlyniad i hynny yn canfod y byddai'r rhiant wedi bod yn gymwys.

224) Ni fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried achosion ar gyfer ôl-daliadau pan nad yw Awdurdod Gweithredu wedi gwneud penderfyniad ar gymhwystra. Gall sefyllfaoedd gynnwys:

- rhiant sy'n cael mynediad at ddarpariaeth gofal plant gyda lleoliad gofal plant ond nad oedd wedi gwneud cais ar-lein am y Cynnig.

- rhiant sy’n cael manteisio ar ddarpariaeth gofal plant gyda lleoliad gofal plant ond nid oedd ei gais am y Cynnig wedi’i gymeradwyo.
- lleoliad sy’n ceisio cyllid ar gyfer rhiant y mae’n credu y dylai wedi bod yn gymwys ond nad oedd awdurdod lleol wedi ei ystyried yn gymwys.
- rhiant wedi gwneud cais am ddarpariaeth gofal plant wahanol fel ar gov.uk.

225) Dylid cyflwyno’r Ffurflen ‘Cais am Ôl-daliad’ i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Gweithredu yn unig fydd yn penderfynu arni.

226) Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am hysbysu rhieni a lleoliadau gofal plant am unrhyw ganlyniad i gais am ôl-daliad.

227) Os bydd cais yn llwyddiannus, dylai’r Awdurdod Gweithredu ddilyn y Weithdrefn Weithredu Safonol - Hawliadau ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru i wneud ôl-daliad ar y platfform digidol cenedlaethol.

## Digwyddiadau eithriadol

228) Gall Llywodraeth Cymru gefnogi lleoliad gofal plant yn ystod digwyddiad eithriadol fel tân, llifogydd neu argyfwng lle nad oedd y lleoliad yn gyfrifol am y sefyllfa ac nad oedd modd ei osgoi. Mae’r achosion hyn yn brin, ac felly bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad fesul achos gan gyfeirio at y trefniadau yswiriant sydd gan leoliadau ar waith.

229) Mae’r achosion hyn hefyd yn cael eu hystyried yn achosion brys lle nad yw plant yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth. Os yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi lleoliad o ganlyniad i amgylchiadau eithriadol, gall rhieni gael mynediad at ddarpariaeth gofal plant mewn lleoliad cofrestredig arall.

230) Mae’n rhaid i awdurdodau lleol gysylltu â Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl gydag unrhyw gais am gymorth eithriadol ar gyfer lleoliad gofal plant. Gwneir penderfyniadau ar geisiadau am gyllid eithriadol fesul achos a byddant yn gyfyngedig o ran amser.

## Tywydd Garw

231) Lle bydd yn rhaid i leoliad gau o ganlyniad i dywydd garw, bydd yr awdurdod lleol yn gwneud penderfyniadau ar daliadau ar gyfer unrhyw ofal plant a drefnwyd o dan y Cynnig fesul achos unigol, gan gyfeirio at drefniadau yswiriant y lleoliad a’i weithdrefnau ar gyfer codi tâl ar unrhyw rieni sy’n defnyddio ei leoliad ar gyfer gofal plant nad yw’n rhan o’r Cynnig.

232) Bydd taliadau i ddarparwyr gofal plant yn seiliedig ar yr oriau a drefnwyd naill ai am bedair wythnos neu am y cyfnod y mae’r lleoliad ar gau, pa un bynnag fydd y byrraf o’r ddau. Os na fydd y lleoliad yn ailagor ar ôl y cyfnod hwnnw, dylai’r cyllid o dan y Cynnig ddod i ben.

233) Mae’n ofynnol i awdurdodau gweithredu ddarparu ffurflen hawlio wedi’i chwblhau ar gyfer tywydd garw i Lywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw hawliadau

i leoliadau yr effeithiwyd arnynt gan dywydd garw.

234) Gall rhieni ddewis gwneud trefniadau gofal plant amgen yn ystod y cyfnod y bydd eu lleoliad arferol ar gau o ganlyniad i dywydd garw. O dan yr amgylchiadau hyn, gellir talu cyllid o dan y Cynnig i'r darparwr cofrestredig amgen sy'n darparu'r Cynnig. Byddai'r taliadau yn seiliedig ar yr oriau a drefnwyd naill ai am bedair wythnos neu am y cyfnod y bydd lleoliad arferol y plentyn ar gau, pa un bynnag fydd y byrraf o'r ddau.

235) Pan fo'n rhaid i leoliad sy'n darparu darpariaeth addysg gynnar gau oherwydd argyfwng, ni all rhieni ddefnyddio oriau gofal plant ar gyfer eu hawl i addysg gynnar. Fodd bynnag, os nad oedd rhiant yn defnyddio ei hawl gofal plant lawn, gall gynyddu ei oriau gofal plant os yw'r darparwr yn gallu darparu ar gyfer hyn, ar yr amod nad yw'n fwy na thelerau'r Cynnig.

236) Oherwydd tywydd garw, gallai'r cyfnod y bydd lleoliad ar gau ddigwydd yn ystod wythnosau nad ydynt yn ystod y tymor. Os na fydd rhiant yn gallu dod o hyd i le mewn lleoliad amgen sy'n para 3 diwrnod neu fwy yn ystod wythnos nad yw yn ystod y tymor, yna ystyrir na fydd yr wythnos honno wedi cael ei defnyddio fel wythnos wyliau ac ni chaiff ei didynnu oddi ar ddyraniad wythnosau gwyliau'r rhiant.

237) Gellir cael y ffurflen hawlio tywydd garw gan Lywodraeth Cymru yn CynnigGofalPlantCymru@llyw.cymru a bydd unrhyw daliad na ellir ei wneud drwy'r broses hawlio arferol yn cael ei wneud drwy'r broses dalu eithriadol drwy'r Gwasanaeth Digidol.

## Pandemig neu argyfwng iechyd tebyg

## Meini Prawf Incwm:

238) Rhaid i bob rhiant ddangos tystiolaeth eu bod yn cael "incwm o weithio" er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig gan mai dyma egwyddor sylfaenol y Cynnig. Dylai awdurdodau lleol gynnal eu trefniadau ailwirio tymhorol fel arfer.

239) Os bydd rhiant, sy'n gwneud cais am y Cynnig am y tro cyntaf neu sy'n derbyn y Cynnig ar hyn o bryd, yn cyrraedd sefyllfa sy'n golygu nad yw bellach yn gymwys oherwydd pandemig a bellach yn ôl i'w amgylchiadau arferol, bydd yn gallu parhau i dderbyn y Cynnig. Efallai bod rhieni wedi derbyn arian drwy gynlluniau cymorth Llywodraeth y DU ar gyfer cyflogeion a phobl hunangyflogedig a gellir cyfrif y rhain fel incwm cymwys ar gyfer y prawf incwm gofynnol.

240) Dylai awdurdodau lleol ailwirio cymhwystra rhieni nad ydynt bellach yn gymwys. Os na fydd y rhiant yn bodloni'r meini prawf cymhwystra, bydd cyfnod esemptio dros dro yn dechrau.

241) Mae'r gofyniad i riant fod yn ymgymryd â rhyw fath o waith neu fod yn hunangyflogedig neu i fod wedi cofrestru ar gwrs AU neu AB perthnasol yn parhau mewn perthynas â'r Cynnig. Os bydd swydd rhiant a oedd yn gymwys i gael y Cynnig yn flaenorol wedi'i dileu, yna ni fydd bellach yn bodloni'r meini

prawf cymhwystra ar gyfer y Cynnig. Nid oes ganddo gontract gwaith na busnes. Yn yr un modd, os bydd cwrs AU neu AB y mae rhiant a gofrestrodd yn flaenorol yn peidio â chael ei ddarparu, yna nid yw bellach yn bodloni'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y Cynnig. Bydd cyfnod esemptio dros dro yn dechrau yn unol â'r canllawiau safonol o'r adeg y bydd ei amgylchiadau yn newid.

## Darpariaeth yn ystod y gwyliau yn ystod pandemig:

242) Lle bydd awdurdod lleol yn ymestyn gwyliau'r ysgol yn sgil pandemig/argyfwng iechyd, gall rhiant ddefnyddio ei hawl gwyliau yn ystod yr wythnosau ychwanegol hynny ar yr amod bod gan y rhiant ddigon o wythnosau gwyliau i'w defnyddio. Fodd bynnag, ni ddyrennir mwy na 3 wythnos o hawl gwyliau i rieni fesul tymor ysgol.

## Darpariaeth addysg feithrin a gofal plant lle mae effaith ar weithrediad ysgolion cynradd:

243) Mae gan awdurdodau lleol elfen o ddisgresiwn i barhau i ariannu oriau gofal plant yn ystod y tymor o dan amgylchiadau eithriadol, fel yn ystod pandemig neu argyfwng iechyd tebyg. Bwriad hyn yw sicrhau bod plant yr oedd disgwyl iddynt ddechrau addysg feithrin amser llawn ond nad ydynt yn gallu gwneud hynny yn dal i gael eu cefnogi.

**Bydd y trefniadau canlynol yn gymwys lle mae pandemig/argyfwng iechyd cyhoeddus wedi effeithio, i amrywiol raddau, ar y gallu i ddarparu a manteisio ar y Cynnig:**

**Senario 1: Mae ysgolion cynradd a lleoliadau gofal plant ar agor i bob plentyn eu mynychu**

Os bydd achos byrdymor o darfu ar y gwasanaeth a ddarperir gan leoliad, neu os bydd plentyn yn absennol am gyfnod byr, byddai taliadau o dan y Cynnig yn parhau am hyd at bythefnos, yn seiliedig ar yr oriau a drefnwyd (gan gynnwys unrhyw elfen sy'n gysylltiedig â'r Grant Cymorth Ychwanegol). Er enghraifft, gall fod angen i'r lleoliad gau er mwyn glanhau yn drylwyr; aelod o staff yn hunanynysu; plentyn sy'n derbyn y Cynnig yn hunanynysu.

Os bydd achos tymor hwy o darfu ar y gwasanaeth neu os bydd plentyn sy'n derbyn y Cynnig yn absennol am gyfnod hwy, gall taliadau o dan y Cynnig barhau hyd at ddiwedd hanner tymor cyfredol yr ysgol neu am o leiaf 4 wythnos os bydd llai na 4 wythnos yn weddill o'r hanner tymor neu os cyflwynir cyfyngiadau yn ystod y gwyliau ysgol, yn seiliedig ar yr oriau a drefnwyd (gan gynnwys unrhyw elfen sy'n gysylltiedig â'r Grant Cymorth Ychwanegol). Er enghraifft, gall fod angen i leoliad gyfyngu ar ei wasanaethau neu gau am fod staff yn sâl neu am eu bod yn agored i niwed yn glinigol yn sgil pandemig/argyfwng iechyd; gall fod staff yn methu â gweithio oherwydd eu cyfrifoldebau gofal plant eu hunain yn sgil y cyfyngiadau ysgolion; gall fod lleoliad yn methu â defnyddio ei adeilad arferol am resymau sy'n ymwneud â'r pandemig/argyfwng iechyd; gall fod plentyn sy'n derbyn y Cynnig yn methu â mynychu gofal plant am fod rhieni yn poeni am y pandemig/argyfwng iechyd, a gall hynny fod am fod y plentyn neu aelod o'r teulu yn agored i niwed yn glinigol yn sgil y pandemig/argyfwng iechyd.

Byddai angen darparu tystiolaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar fusnes y darparwr i'r awdurdod lleol mewn perthynas ag achosion byrdymor a thymor hwy o darfu ar wasanaethau.

Gellir parhau â thaliadau i leoliadau ar fwy nag un achlysur a gellir talu mewn perthynas â'r un plentyn fwy nag unwaith. Fodd bynnag, byddai hyn fel rheol ar achlysuron ar wahân ac am resymau gwahanol.

**Senario 2: Mae ysgolion cynradd yn gweithredu ar sail gyfyngedig ond mae lleoliadau gofal plant ar agor**

Os bydd achos byrdymor o darfu ar y gwasanaeth neu os bydd plentyn sy'n derbyn y Cynnig yn absennol am gyfnod byr, gall taliadau o dan y Cynnig barhau am hyd at bythefnos, yn seiliedig ar yr oriau a drefnwyd (gan gynnwys unrhyw elfen sy'n gysylltiedig â'r Grant Cymorth Ychwanegol). Er enghraifft, gall fod angen i'r lleoliad gau er mwyn glanhau yn drylwyr; aelod o staff yn hunanynysu; plentyn sy'n derbyn y Cynnig yn hunanynysu.

Os bydd achos tymor hwy o darfu ar y gwasanaeth neu os bydd plentyn sy'n derbyn y Cynnig yn absennol am gyfnod hwy, gall taliadau o dan y Cynnig barhau hyd at ddiwedd hanner tymor cyfredol yr ysgol neu am o leiaf 4 wythnos os bydd llai na 4

wythnos yn weddill o'r hanner tymor neu os cyflwynir cyfyngiadau yn ystod y gwyliau ysgol, yn seiliedig ar yr oriau a drefnwyd (gan gynnwys unrhyw elfen sy'n gysylltiedig â'r Grant Cymorth Ychwanegol). Er enghraifft, gall fod angen i leoliad gyfyngu ei wasanaethau neu gau am fod staff yn sâl neu am eu bod yn agored i niwed yn glinigol yn sgil y pandemig/argyfwng iechyd; gall fod staff yn methu â gweithio oherwydd eu cyfrifoldebau gofal plant eu hunain yn sgil y cyfyngiadau ysgolion; gall fod lleoliad yn methu â defnyddio ei adeilad arferol am resymau sy'n ymwneud â'r pandemig/argyfwng iechyd; gall fod plentyn sy'n derbyn y Cynnig yn methu â mynychu gofal plant am fod rhieni yn poeni am y pandemig/argyfwng iechyd neu gall y pandemig/argyfwng iechyd fod yn effeithio ar angen y teulu am ofal plant am y tro.

Byddai angen darparu tystiolaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar fusnes y lleoliad i'r awdurdod lleol mewn perthynas ag achosion byrdymor a thymor hwy o darfu ar wasanaethau.

Gellir parhau â thaliadau i leoliadau ar fwy nag un achlysur a gellir talu mewn perthynas â'r un plentyn fwy nag unwaith. Fodd bynnag, byddai hyn fel rheol ar achlysuron ar wahân ac am resymau gwahanol.

Os bydd cyfnod estynedig o gyfyngiadau a tharfu, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried darparu canllawiau ychwanegol.

**Senario 3: Mae ysgolion cynradd a lleoliadau gofal plant oll yn gweithredu ar sail gyfyngedig**

Yn yr achos hwn, dim ond pan fydd plentyn gweithiwr a ystyrir yn hanfodol gan y llywodraeth neu blentyn sy'n agored i niwed yn defnyddio lle o dan y Cynnig y byddai taliadau yn parhau o dan y Cynnig. Byddai taliadau mewn perthynas â phlant eraill yn dod i ben ar ôl pedair wythnos, sef y cyfnod hysbysu arferol yng nghontractau'r rhan fwyaf o leoliadau gofal plant.

Byddem yn annog awdurdodau lleol i ddefnyddio'r lleoedd ar gyfer plant gweithwyr sy'n cael eu hystyried yn hanfodol gan y llywodraeth y gellid eu hariannu drwy'r Cynnig yn llawn drwy gydol unrhyw gyfnod o gyfyngiadau. Pe byddai sefyllfa o'r fath yn codi, byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried yr angen am gyngor pellach, mwy penodol, gan ystyried natur a graddfa'r cyfyngiadau a lledaeniad y feirws.

## Adennill Dyledion

Gweler y canllawiau rheoli dyledion Bolisi Rheoli Dyledion Cynnig Gofal Plant Cymru.

## Gordaliadau

244) Dylid hysbysu Llywodraeth Cymru ar unwaith os bydd awdurdod lleol yn dod yn ymwybodol bod gordaliad wedi'i wneud drwy'r Gwasanaeth Digidol. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weithio gydag awdurdodau lleol i reoli'r broses o gywiro neu adhawlio unrhyw ordaliad. Bydd y prosesau hyn yn cael eu hategu gan Bolisi Rheoli Dyledion Cynnig Gofal Plant Cymru.

## Cau gwasanaethau o wirfodd

245) Mae amgylchiadau lle gall lleoliad roi'r gorau i ddarparu'r Cynnig neu gael ei atal rhag gwneud. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pan fo cofrestriad lleoliad gofal plant yn cael ei atal dros dro neu ei ganslo gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- Pan fo lleoliad, o'i wirfodd, yn rhoi'r gorau i ddarparu oriau a ariennir o dan y Cynnig.
- Pan fo awdurdod lleol yn atal lleoliad dros dro mewn amgylchiadau fel gweithgareddau twyllodrus.

Dylai awdurdodau lleol gyfeirio at y Weithdrefn Gweithredu Safonol yn ymwneud â Chofrestru Lleoliad Gofal Plant i gymryd camau.

## Atodiad 1 - Senarios Cario Darpariaeth Gwyliau Drosodd:

<u>Roedd pen-blwydd **Scarlet** yn 3 oed ar 28 Chwefror 2019</u>

Yn ôl polisi'r awdurdod lleol, gall Scarlet gael addysg feithrin ran-amser o'r tymor ar ôl ei phen-blwydd yn 3 oed. Mae'n dechrau'r ysgol ar 20 Ebrill, ar ddechrau tymor yr haf, ac yn dechrau cael mynediad i'r Cynnig ar yr un pryd (oherwydd bod llawer o awdurdodau lleol yn dechrau'r ddwy hawl ar yr un pryd).

Bydd Scarlet yn cael mynediad i'r Cynnig tan y mis Medi ar ôl ei phen-blwydd yn 4 oed, gan mai dyma pryd mae plant yn dechrau addysg amser llawn yn yr awdurdod lleol.

Ystyrir bod Scarlet yn gymwys ar gyfer y Cynnig dros <u>4 tymor</u> (haf, hydref, gwanwyn, haf). Mae'r rhain yn disgyn ar draws 2 flynedd academaidd.

Dyrennir 3 wythnos wyliau i rieni Scarlet ar gyfer pob tymor y maent yn gymwys (3 wythnos x 4 tymor) = cyfanswm o 12 wythnos o ddarpariaeth gwyliau.

Defnyddiodd rhieni Scarlet 3 wythnos yn ystod yr haf cyntaf roedd Scarlet yn gymwys. Yna fe ddefnyddion nhw bythefnos yn ystod y Nadolig, pythefnos yn ystod y Pasg a 5 wythnos arall yn ystod yr haf canlynol.

Yn yr enghraifft hon ni chariwyd unrhyw ddarpariaeth gwyliau drosodd o un flwyddyn academaidd i'r llall.

<u>Roedd pen-blwydd **Thomas** yn 3 oed ar 10 Awst</u>

Yn ôl polisi'r awdurdod lleol, gall Thomas gael addysg feithrin ran-amser o'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn 3 oed. Dechreuodd addysg feithrin ar 4 Medi a dechreuodd fanteisio ar y Cynnig ar yr un pryd.

Bydd Thomas yn cael mynediad i'r Cynnig tan y mis Medi ar ôl ei ben-blwydd yn 4 oed, gan mai dyma pryd mae plant yn dechrau addysg amser llawn yn yr awdurdod lleol.

Ystyrir bod Thomas yn gymwys ar gyfer y Cynnig dros <u>3 thymor</u> (hydref, gwanwyn, haf). Mae'r rhain i gyd o fewn yr un flwyddyn academaidd.

Dyrennir 3 wythnos wyliau i rieni Thomas ar gyfer pob tymor y maent yn gymwys (3 wythnos x 3 thymor) = cyfanswm o 9 wythnos o ddarpariaeth gwyliau.

Defnyddiodd rhieni Thomas wythnos yn ystod y Nadolig, pythefnos yn ystod y Pasg a 6 arall yn ystod yr haf.

Yn yr enghraifft hon ni chariwyd unrhyw ddarpariaeth gwyliau drosodd o un flwyddyn academaidd i'r llall.

Pe na bai'r rhiant wedi defnyddio'r ddarpariaeth lawn o 9 wythnos o wyliau erbyn diwedd y gwyliau haf, ni fyddai'r rhieni wedi gallu eu cario drosodd i'r tymor canlynol

gan nad oedd Thomas yn gymwys ar gyfer y Cynnig pan ddechreuodd addysg amser llawn y tymor canlynol.

Roedd pen-blwydd **Rebecca** yn 3 oed ar 23 Medi

Yn ôl polisi'r awdurdod lleol, gall Rebecca gael addysg feithrin ran-amser o'r tymor ar ôl ei phen-blwydd yn 3 oed. Dechreuodd addysg gynnar ar 7 Ionawr a dechreuodd gael mynediad i'r Cynnig ar yr un pryd.

Bydd Rebecca yn cael mynediad i'r Cynnig tan y mis Medi ar ôl ei phen-blwydd yn 4 oed, gan mai dyma pryd mae plant yn dechrau addysg amser llawn yn yr awdurdod lleol.

Ystyrir bod Rebecca yn gymwys i gael y Cynnig am 5 tymor (gwanwyn, haf, hydref, gwanwyn, haf) – **y cyfnod hwyaf y gall plentyn fod yn gymwys i gael y Cynnig.** Mae'r rhain yn disgyn ar draws 2 flynedd academaidd.

Dyrennir 3 wythnos o ddarpariaeth gwyliau i rieni Rebecca ar gyfer pob tymor y maent yn gymwys (3 wythnos x 5 tymor) = cyfanswm o 15 wythnos o ddarpariaeth gwyliau.

Defnyddiodd rhieni Rebecca bythefnos yn ystod y Pasg, 3 wythnos yn ystod yr haf, pythefnos yn ystod y Nadolig, pythefnos yn ystod y Pasg canlynol a 6 wythnos yn ystod yr haf canlynol.

Pe na bai'r rhieni wedi defnyddio'r ddarpariaeth lawn o 15 wythnos o ddarpariaeth gwyliau erbyn yr ail gyfnod o wyliau haf, ni fyddai'r rhieni wedi gallu cario'r gwyliau drosodd i'r tymor canlynol gan nad oeddent yn gymwys ar gyfer y Cynnig pan ddechreuodd addysg amser llawn y tymor canlynol.